



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor  
Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 2 Tachwedd 2022

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 8 TACHWEDD 2022** am **10.00** am yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 8)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2022 (copi ynghlwm).

### 5 SAFONAU IAITH GYMRAEG - SAFON 98 (Tudalennau 9 - 48)

Derbyn adroddiad gan Swyddog yr Iaith Gymraeg ar Safonau'r Gymraeg, yn benodol safon 98 (copi ynghlwm)

**6 ADBORTH COMISIYNYDD Y GYMRAEG** (Tudalennau 49 - 54)

Derbyn adroddiad ar ganlyniadau Adroddiad Monitro Comisiynydd y Gymraeg (copi ynghlwm)

**7 GWEITHGAREDDAU I HYRWYDDO'R IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 55 - 60)

I dderbyn adroddiad yn rhoi gwybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod (copi ynghlwm)

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 61 - 62)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm).

**9 ER GWYBODAETH - ADRODDIAD Y GYMRAEG FEL Ffordd O WEITHIO** (Tudalennau 63 - 116)

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard  
Ann Davies  
Gill German  
Huw Hilditch-Roberts  
Paul Keddie

Merfyn Parry  
Elfed Williams  
Huw Williams  
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2022 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Gill German, Huw Hilditch-Roberts, Merfyn Parry, Huw Williams ac Emrys Wynne

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau (NS), Swyddog Iaith (MC), Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd (GW), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SW (Lletywr) RTJ)

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elfed Williams.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol ag eitem 8 ar y rhaglen gan ei fod yn gweithio gyda gweithgor yr Eisteddfod.

#### 3 PENODI CADEIRYDD

Ceisiwyd enwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Huw Williams y Cynghorydd Ellie Chard, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts. Oherwydd na chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, aethpwyd i'r bleidlais.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Ellie Chard yn Gadeirydd Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn Gyngor gyfredol.

#### 4 PENODI IS-GADEIRYDD

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau am Is-gadeirydd. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y dylid gohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf oherwydd na chafwyd unrhyw enwebiadau a hefyd oherwydd bod rhai aelodau'n absennol o'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** y dylid gohirio penodiad Is-gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

#### 5 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryn.

#### 6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

## 7 ADRODDIAD MONITRO'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro'r Gymraeg blynyddol gan yr Arweinydd Tîm - Cyfathrebu (adroddiad wedi'i ddsbarthu eisoes).

Yn unol â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn yn amlinellu'r gwaith a wnaed i gydymffurfio â gofynion y Safonau rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar 6ed blwyddyn gweithrediad Safonau'r Gymraeg gyda'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn wahanol iawn i'r arfer. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo'n llwyr i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg fel sydd wedi'i adlewyrchu yn Strategaeth y Gymraeg 2017-2022 ac mae'r Cyngor yn dal yn gwbl ymrwymedig i chwarae ei ran yn yr ymdrech genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Yn 2021-22 roedd y Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar weithrediad y Safonau Iaith o fewn yr awdurdod gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r 167 Safon o dan y penawdau Cynllunio Gwasanaethau, Gwneud Polisiâu, Hyrwyddo a Chadw Cofnodion. Er mwyn gwneud hyn roedd yn hanfodol gweithio'n agos â Phencampwyr y Gymraeg ar draws yr Awdurdod i fonitro cydymffurfiaeth staff pan oedd y rhan fwyaf o'r gweithlu'n dal i weithio gartref. Rydym yn dal i gefnogi'r gweithlu fwy nag erioed gyda gweithrediad y safonau a'n targed yw dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. I wneud hyn rydym yn hyrwyddo cyrsiau Cymraeg er mwyn i staff allu cychwyn ar eu siwrnai iaith neu gyrsiau magu hyder a gweithgareddau mewnol i helpu staff i ddatblygu a meithrin eu sgiliau Cymraeg.

Roedd y Cyngor yn aelod gweithredol o'r Bartneriaeth Iaith a arweiniwyd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r fforwm yn cynnwys sawl sefydliad, lleol a chenedlaethol, sy'n gweithio'n strategol tuag at hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Mae Cynllun y Gymraeg Mewn Addysg Sir Ddinbych hyd 2032 yn cynnwys gwybodaeth am y bwriad i gyfuno Grŵp Strategol y Gymraeg Mewn Addysg â Fforwm Iaith y Sir i oruchwylio gweithrediad a gwerthusiad y cynllun.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud llawer o waith hanfodol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu gweithredu.

Cynhaliodd y Cyngor ei bedwerydd Eisteddfod rhwng 18 Chwefror ac 1 Mawrth fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Roedd y digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi proffil y Gymraeg, i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r iaith ac i ddathlu diwylliant Cymru. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn ystod cyfnod o gryn ffocws ar y

Gymraeg gydag Eisteddfod yr Urdd ar fin dychwelyd i'r Sir ym mis Mai 2022. Unwaith eto eleni, oherwydd Covid-19, cynhaliwyd Eisteddfod y Staff yn ddigidol.

Roedd 'Mae Gen i Hawl' yn ymgyrch genedlaethol i ddathlu'r gwasanaethau iaith a gynigir gan Awdurdodau Lleol a hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â nhw. Roedd yn gyfle i hyrwyddo gwasanaethau iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych ac i gynyddu'r niferoedd sy'n dewis eu defnyddio. Mae'r ymgyrch farchnata'n siarad am rai o'r hawliau sydd gan y cyhoedd y ogystal â staff y Cyngor.

Trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol yn fwy manwl –

- Diolchodd y Cynghorydd Emrys Wynne i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cymunedau, Swyddog y Gymraeg a'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - cyn aelod arweiniol y Gymraeg, am y gwaith a grybwyllwyd yn yr adroddiad. Roedd y cytuno bod gweithio o bell wedi effeithio ar gymdeithasu a chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Un o uchelgeisiau'r Cynghorydd Wynne fel aelod arweiniol oedd sicrhau y gallai pobl ddefnyddio'r Gymraeg ac na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol o wneud hynny.
- Codwyd y mater o'r gyllideb ar gyfer y Gymraeg a dywedwyd wrth yr aelodau y bydd unrhyw gostau perthnasol yn dod o gyllidebau'r gwasanaethau.
- Codwyd y mater o agor cyfarfodydd pwyllgor gan fod rhai aelodau'n meddwl bod pob cyfarfod i fod i gael ei agor yn Gymraeg ond nad yw hyn yn digwydd bob tro. Bydd y Swyddog Iaith yn rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau i annog cadeiryddion pwyllgorau i agor cyfarfodydd yn Gymraeg.

**PENDERFYNWYD** bod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg yn nodi ac yn cymeradwyo'r adroddiad

## 8 EISTEDDFOD YR URDD

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm - Cymunedau adroddiad yn rhoi gwybodaeth am lwyddiant Eisteddfod yr Urdd (wedi'i ddsbarthu eisoes).

Daeth Eisteddfod yr Urdd yn ôl i Sir Ddinbych fis diwethaf (30 Mai - 4 Mehefin) ar ôl iddi gael ei gohirio am ddwy flynedd. Roedd yr Eisteddfod i fod i gael ei chynnal yn wreiddiol ym mis Mai 2020 ond cafodd ei gohirio oherwydd Covid.

Hon oedd yr Eisteddfod gyntaf i gynnal Gŵyl Triban ac roedd mynediad i'r maes am ddim, gyda hynny wedi rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr. Ymwelodd dros 118,000 o bobl â'r eisteddfod dros yr wythnos. Roedd mwy o gystadleuwyr o Sir Ddinbych nag o unrhyw ran arall o Gymru sydd yn adlewyrchiad o waith caled yr Adran Addysg.

Roedd Pabell Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Theatr
- Ardal hyrwyddo busnes
- Ardal Celf a Chrefft
- Gwasanaethau Cefn Gwlad ac leuenctid a thrac BMX a oedd yn atyniad aruthrol.
- Llu o berfformiadau

- Ymweliadau gwleidyddol drwy gydol yr wythnos.

Cafodd y babell nifer fawr o ymwelwyr gyda llawer o deuluoedd o ardaloedd y Rhyl a Phrestatyn wedi dod am dro - demograffig nad ydynt fel arfer yn mynd i'r eisteddfod.

Cynhyrchwyd gwaith celf gan ffoaduriaid sydd wedi dod i'r ardal a oedd yn amlygu'r tebygrwydd rhwng eu diwylliant a diwylliant Cymru.

Y gobaith yw hefyd y bydd yr Eisteddfod yn gadael etifeddiaeth barhaol o ran ei dylanwad ar yr economi leol a'r fasnach dwristiaeth gyda mwy a mwy o bobl yn dod i'r sir a rhanbarth Gogledd Ddwyrain Cymru ehangach. Dywedodd llawer o bobl a ddaeth i babell Sir Ddinbych mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt ddod i'r sir ac y byddant yn dod yn ôl i dreulio mwy o amser yma. Bydd yr Urdd yn cynnal astudiaeth o effaith ar yr economi yn y dyfodol agos.

Dylai'r Cyngor hefyd weithio'n agos â'r Urdd a phartneriaid cymunedol eraill i ddod o hyd i gyfleoedd i fanteisio ar weithgareddau'r Urdd a chynnal digwyddiadau rheolaidd eraill a fydd yn cynnal bwrlwm a momentwm.

Trafododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol yn fwy manwl –

- Roedd y Pwyllgor i gyd yn cytuno bod llwyddiant yr Eisteddfod yn gyrhaeddiad aruthrol a bod digwyddiad fel hyn a ddaeth a chymaint o bobl at ei gilydd yn beth braf iawn ar ôl Covid. Roedd yr amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau ar y Maes yn rhagorol o ran y cyfleoedd a gynigiwyd i hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd y Pwyllgor yn gobeithio bod yr economi leol wedi manteisio yn sgil yr Eisteddfod.
- Diolchodd y Cynghorydd Gill German i staff Sir Ddinbych a'r Urdd am yr Eisteddfod gan ddweud bod yr ŵyl wedi'i hysbrydoli i fynd ymlaen â'i thaith ddysgu Cymraeg.
- Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau eisiau diolch i'r tîm ar ran y Cyngor a'r Tîm Uwch Reolwyr o fewn y Cyngor am ddod a'r Cyngor yn agosach at y gymuned.

**PENDERFYNWYD** y dylai Pwyllgor Llywio'r Gymraeg nodi'r adroddiad ar Eisteddfod yr Urdd.

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Gwasanaeth Democrataidd i'w hystyried.

Cododd yr Aelodau'r materion canlynol -

- Cytunodd y Swyddogion y byddent yn trafod unrhyw eitemau ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cyngor.



<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	08 Tachwedd, 2022
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	Nicola Stubbins / Cynghorydd Emrys Wynne
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Manon Celyn Roberts – Swyddog Iaith Gymraeg
<b>Teitl</b>	Safonau Iaith Gymraeg – Safon 98

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Safonau'r Gymraeg – yn benodol safon 98.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ddyletswydd arnom fel Cyngor, gan ein bod yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, i gael Polisi ar weithredu'r Gymraeg yn fewnol (Safonau 98). Nid oes gennym un ar hyn o bryd ac o ganlyniad yn mynd yn groes i'r Safonau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I roi diweddariad i'r Aelodau ar y camau gweithredu a gymerwyd i gynhyrchu Polisi Gweithredu'r Gymraeg yn fewnol (wele'r atodiad).

## 4. Manylion yr adroddiad

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn 2015, fel rhan o'r broses gyflwyno i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Crëwyd y Safonau mewn ymateb uniongyrchol i Fesur y Gymraeg (2011) a rôl Comisiynydd y Gymraeg.

Cyflwynwyd y Safonau er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen i Sir Ddinbych gydymffurfio â 167 o Safonau sydd wedi cael eu rhannu rhwng pum maes allweddol: Darparu Gwasanaeth; Gwneud Polisiâu; Gweithredol.

Cadw Cofnodion a Hyrwyddo. Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o'r sefydliad i weithredu'r Safonau hyn.

Dosbarthwyd mandad clir gan y Cyngor i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a'r nod yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd yn eu hiaith ddewisedig. Yn ôl y disgwyl, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu'r safonau hyn ers sawl blwyddyn. Er nad oedd llawer o'r safonau yn newydd i'r sefydliad, roedd angen i ni sicrhau bod ymateb cadarnhaol i'w gweithredu ledled y sir a bod cwsmeriaid yn gweld gwell gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymddengys bod y Cyngor yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau yn gyffredinol. Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, sydd â chyfrifoldebau corfforaethol dros y Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â'r safonau. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm o Bencampwyr Iaith Gymraeg sy'n gweithredu'n wirfoddol i hyrwyddo dull gweithio corfforaethol. Mae profion cydymffurfio yn cael eu cynnal ar hap gan sefydliadau eraill, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Y Gymraeg.

Er yr ymddengys ein bod yn cydymffurfio yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal gwaith ymchwil ar y sefydliadau cyhoeddus i gyd ac mae ymchwil diweddar yn dangos nad oes gennym bolisi ar weithredu'r Gymraeg yn fewnol. O ganlyniad mae'n ddyletswydd arnom i lunio'r polisi fel rhan o'n hymdrechion i gydymffurfio â'r safonau.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg gan adeiladu diwylliant ac ethos sy'n annog defnydd dyddiol o'r Gymraeg gan aelodau etholedig a staff y cyngor, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i wella eu hyder i ddefnyddio'r iaith.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes yna gyllideb ar gyfer datblygu Strategaeth y Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu derbyn gan gyllidebau presennol.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## **8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w**

Y prif risg yw'r risg yw diffyg cydymffurfio a bod cwyn yn cael ei chyflwyno i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â niwed i enw da'r Cyngor.

Hefyd y risg o beidio â chydymffurfio â chais uniongyrchol gan Gomisiynydd y Gymraeg i lunio polisi ar ddyfarnu grantiau.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# **Polisi'r Gymraeg**

**wedi'i baratoi yn unol â  
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a  
Safonau'r Gymraeg 2015**

**Gwasanaeth Iaith Gymraeg**

**Fersiwn 2, Rhagfyr 2021**

**This document is also available in English.**

## Cynnwys

Rhagair	Tudalen
<b>Adran A – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau</b>	<b>4</b>
<b>1. Gohebiaeth</b>	<b>5</b>
1.1 – 1.7 Gohebiaeth	5
1.8 E-byst Torfol/Llythyrau/Negeseuon Postmaster/Newyddlenni	6
1.9 Negeseuon 'Allan o'r Swyddfa'	6
1.10 Llofnod ar negeseuon e-bost	7
1.11 Cyfeiriadau e-bost generig	7
<b>2. Gwneud / Ateb Galwadau Ffôn</b>	<b>8</b>
2.1 – 2.7 Galwadau Ffôn	8
2.8 Negeseuon ar beiriannau ateb	9
<b>3. Trefnu Cyfarfodydd / Gwahodd pobl i gyfarfodydd</b>	<b>9</b>
3.1-3.7 Cyfarfodydd Cyhoeddus	9
3.8 Rhaglenni a Chofnodion	10
3.9 Adroddiadau	11
3.10 Cyflwyniad PowerPoint mewn cyfarfod cyhoeddus	11
3.11 Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd	11
<b>4. Trefnu neu Ariannu Digwyddiad Cyhoeddus</b>	<b>12</b>
4.1 Hyrwyddo digwyddiad cyhoeddus	12
4.2 Trefnu digwyddiad cyhoeddus	12
4.3 Cyhoeddiadau sain mewn digwyddiadau cyhoeddus	12
<b>5. Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Hysbysebu, Marchnata a Deunydd Arddangos</b>	<b>12</b>
<b>6. Gwybodaeth / Dogfennau ar gyfer y cyhoedd</b>	<b>13</b>
<b>7. Ffurflenni ar gyfer y cyhoedd</b>	<b>14</b>
<b>8. Llwyfan Ddigidol (Gwefannau, Mewnrwyd, Teams, Apiau, Cyfryngau Cymdeithasol a Pheiriannau Hunanwasanaeth)</b>	<b>15</b>
<b>9. Arwyddion</b>	<b>17</b>
<b>10. Enwau Strydoedd</b>	<b>18</b>
<b>11. Derbynfeydd</b>	<b>18</b>
<b>12. Cortynnau Gwddf Cymraeg / Dysgwyr</b>	<b>19</b>
<b>13. Hysbysiadau Swyddogol a Hysbysiadau Cyhoeddus</b>	<b>19</b>
<b>14. Nawdd a Grantiau gan y Cyngor</b>	<b>20</b>
<b>15. Tendrau</b>	<b>20</b>
<b>16. Hunaniaeth Gorfforaethol</b>	<b>21</b>
<b>17. Cyrsiau sy'n agored i'r Cyhoedd</b>	<b>21</b>
<b>18. Negeseuon dros systemau sain</b>	<b>21</b>

<b>Adran B – Safonau Llundio Polisi</b>	<b>22</b>
<b>19. Llundio Polisi</b>	<b>22</b>
19.1 Polisiâu newydd neu adolygu/addasu polisiâu cyfredol	22
19.4 Cyhoeddi ymgynghoriadau	22
19.7 Dyfarnu Grantiau	23
<b>Adran C – Safonau Gweithredu</b>	<b>25</b>
20. Camau Gweithredu i Reolwyr Atebol	25
20.1-20.7 Penodi Staff Newydd	25
<b>21. Materion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol</b>	<b>26</b>
<b>22. Technoleg Gwybodaeth</b>	<b>27</b>
22.1 Gwrydd sillafu Cymraeg	27
22.2 Cysgliad	27
22.3 MS Office yn Gymraeg	27
<b>23. Sgiliau Cymraeg staff y Cyngor</b>	<b>28</b>
<b>24. Cyrsiau Cymraeg i staff</b>	<b>28</b>
<b>25. Dysgu Cymraeg</b>	<b>29</b>
<b>26. Adnoddau Dynol</b>	<b>30</b>
26.1 Staffio	30
<b>27. Recriwtio i swydd wag</b>	<b>31</b>
<b>28. Trefnu Cyfweiliadau</b>	<b>33</b>
<b>29. Cyhoeddiadau dros offer sain</b>	<b>33</b>
<b>30. Cwynion</b>	<b>33</b>
<b>Adran Ch – Safonau Hyrwyddo'r Gymraeg</b>	<b>34</b>

## Rhagair

Mae gofyn i bob aelod o staff y Cyngor gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyda'r polisi hwn, ceir manylion pellach amdanynt.

Bwriad Safonau'r Gymraeg yw ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac hefyd yn fewnol yn y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn ymfalchïo yn niwylliant Cymraeg a Chymreig yr ardal a'i fod yn Gyngor dwyieithog. Nid yn unig y mae nifer fawr o drigolion Conwy yn siaradwyr Cymraeg, mae nifer fawr o staff y Cyngor hefyd yn siaradwyr Cymraeg. Am y rheswm hwnnw, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hyn, nid yn unig yn sicrhau bod pob un o leoliadau gwaith y Cyngor yn weithleoedd dwyieithog, sy'n rhoi cyfle i weithwyr ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, ond mae hefyd yn hwyluso cynnig darpariaeth ddwyieithog i'n cwsmeriaid.

Mae pedair prif rhan i'r polisi hwn, yn unol â phenawdau Safonau'r Gymraeg, sef Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi, Gweithredu a Hyrwyddo'r Gymraeg. Cewch ragor o fanylion am gynnwys bob rhan yn y dudalen gynnwys uchod.

## Rheolwyr

Mae gennych chi rai dyletswyddau pellach dan y Safonau – mae'r rhain wedi'u nodi dan y pennawd perthnasol yn y polisi isod yn Adran C, pwynt 20. Maen nhw'n cynnwys elfennau fel holi'r gweithiwr newydd am eu dewis iaith, ym mha iaith fydden nhw'n hoffi cael eu contract ac ati.

## Angen cymorth pellach gyda'r polisi?

Os hoffech gyngor neu gymorth gyda'r polisi hwn, yna mae croeso i chi gysylltu gyda Manon Celyn, Swyddog Iaith Gymraeg ([manon.celyn@sirddinbych.gov.uk](mailto:manon.celyn@sirddinbych.gov.uk)).

## Pencampwyr Iaith Gymraeg

Mae gan bob Gwasanaeth yn y Cyngor bellach Bencampwr y Gymraeg gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob tri mis i fonitro cynnydd gyda'r Safonau ynghyd â rhannu arferion gorau a gweithredu fel cyfaill beirniadol. Mae gan yr aelodau ddealltwriaeth drylwyr o anghenion y Safonau a'r strategaeth gysylltiedig gan gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a chwsmer cudd ynghyd â gweithgareddau eraill i gydweithwyr a dysgwyr.

Gall y rôl gynnwys rhai o'r cyfrifoldebau canlynol:

- Hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith
- Mentora staff sy'n dysgu Cymraeg
- Cefnogi ymgyrchoedd a mentrau mewnol i wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy
- Creu ethos dwyieithog naturiol yn y gweithle
- Annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fusnes mewnol
- Hyrwyddo a hwyluso gwasanaeth dwyieithog yn eu Lleoliadau gwaith eu hunain



- Cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r iaith a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg am Arweiniad a chefnogaeth
- Bod yn arweinydd brwdfrydig, sy'n arwain trwy esiampl ac yn edrych am ddulliau o godi proffil yr iaith yn y gweithle

### **Adolygu'r Polisi**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn fel bo angen.

## Adran A – Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

### 1. Gohebiaeth

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae gennym gytundeb gyda Chyngor Sir Conwy ar gyfer Gwasanaethau Cyfieithu sy'n ein cynorthwyo gyda chyfieithu cyn iddo gael ei anfon at y cyhoedd/staff.

- 1.1 Os ydych yn cael unrhyw ohebiaeth (llythyr / e-bost ac ati) gan rhywun yn Gymraeg, yna mae'n rhaid i chi ei ateb yn Gymraeg.
- 1.2 Os ydych chi'n siarad Cymraeg ac yn cysylltu ag unigolyn arall sy'n siarad Cymraeg o ran gwaith bob dydd, yna fe'ch anogir i wneud hynny yn Gymraeg.

#### Allanol

Pan fyddwch chi'n ysgrifennu at rywun tu allan i'r Cyngor am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi ofyn wrthyn nhw os ydyn nhw eisiau cael y llythyr / e-bost / gwybodaeth gennych chi'n Gymraeg. Os ydyn nhw'n ateb yn dweud eu bod nhw eisiau cael y wybodaeth yn Gymraeg, yna mae'n rhaid i chi:

- (a) gadw cofnod o hynny
- (b) cysylltu yn Gymraeg gyda'r unigolyn o hynny ymlaen, ac
- (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon ato o hynny ymlaen yn Gymraeg.

Os na wyddoch beth yw eu dewis iaith, yna dylech anfon yr ohebiaeth gyntaf yn ddwyieithog.

- 1.3 Pan fyddwch chi'n ysgrifennu at ddau unigolyn sy'n byw yn yr un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi ofyn wrth yr unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os:
  - (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, mae'n rhaid i chi gadw cofnod o hynny, a chysylltu yn Gymraeg o hynny ymlaen;
  - (b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ateb i ddweud ei fod eisiau cael y wybodaeth yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg i'r unigolyn hwnnw o hynny ymlaen pan fyddwch chi'n anfon gwybodaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.
- 1.4 Pan fyddwch chi'n ysgrifennu at nifer o bobl (e.e. pawb sy'n byw ar stad o dai yn Rhuthun), mae'n rhaid i chi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon y fersiwn Saesneg ohoni.
- 1.5 Os nad ydych chi'n gwybod os yw rhywun yn dymuno cael gwybodaeth gennych yn Gymraeg, yna mae'n rhaid i chi ddarparu fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r ohebiaeth wrth ysgrifennu at yr unigolyn hwnnw.
- 1.6 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr un wybodaeth yn cael ei rhoi ar fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg pob gohebiaeth (dyddiad, cyfeirnod, cyfeiriad ac ati). Mae angen gwneud yn siŵr eich bod yn llofnodi pob ateb hefyd, ar yr ochr Gymraeg a'r ochr Saesneg.

- 1.7 Mae angen i'r frawddeg a ganlyn gael ei chynnwys ar bob gohebiaeth, mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol. Bydd angen y neges hon yn rhan awtomatig o bob neges e-bost sy'n gadael eich cyfrif felly nid oes angen ei chynnwys ar unrhyw neges e-bost.

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.**

**We welcome correspondence in Welsh and there will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.**

- 1.8 **E-byst torfol/Llythyrau/Negeseuon Postmaster/Newyddlenni** - Bydd unrhyw ohebiaeth dorfol sydd wedi'i hanelu at bob un aelod o staff y Cyngor / grŵp o staff / gwasanaeth cyfan ac ati a anfonir drwy negeseuon e-bost / llythyrau / Postmaster / Newyddlenni etc yn cael eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd bob amser oni bai eich bod yn gwybod mai Cymraeg yn unig neu Saesneg yn unig yw dewis iaith bob un o'r aelodau hynny o staff. Wrth anfon unrhyw fath o ohebiaeth yn ddwyieithog, mae'n rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi uwchben y testun Saesneg.

- 1.9 **Negeseuon 'Allan o'r Swyddfa'** - Dylai neges 'allan o'r swyddfa' pob aelod o staff fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg o flaen y Saesneg. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys gwybodaeth gwbl ddwyieithog, e.e.


Nid wyf yn y swyddfa ar hyn o bryd / I'm not in the office at the moment.

Os hoffech gymorth i gyfieithu eich neges allan o'r swyddfa, mae croeso i chi gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ([cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk)).

- 1.10 **Llofnod ar negeseuon e-bost** – Dylai llofnod eich negeseuon e-bost fod yn ddwyieithog ac wedi'i osod fel a ganlyn:

[Enw Llawn]  
[Teitl y Swydd yn Gymraeg/Teitl y Swydd yn Saesneg]  
[Teitl yr Uned/Adran yn Gymraeg / Teitl yr Uned/Adran yn Saesneg]  
[Teitl y Gwasanaeth yn Gymraeg / Teitl y Gwasanaeth yn Saesneg]  
Cyngor Bwrdeistref Sirol CONWY County Borough Council  
[cyfeiriad.e-bost]@conwy.gov.uk  
Ffôn/Phone: 01492 57[xxxx]

**Siaradwyr Cymraeg rhugl** - Dylai pob aelod o staff y Cyngor sy'n medru'r Gymraeg gynnwys y ddelwedd hon ar waelod eu llofnod i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg:



**Dysgwyr** – Yn yr un modd, dylai pob aelod o staff y Cyngor sy'n dysgu Cymraeg gynnwys y ddelwedd hon ar waelod eu llofnod i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn dysgu Cymraeg:



Gallwch lawrlwytho'r delweddau hyn o [safle'r Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu ar y fewnwyd](#) neu gysylltu â'r Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu am gopi.

- 1.11 Bydd cyfeiriadau e-bost generig yn cael cyfeiriad e-bost Cymraeg a Saesneg o'r cychwyn cyntaf. Hefyd, bydd yr enw a ddefnyddir ar y cyfeiriad e-bost yn ddwyieithog. Er enghraifft:

Enw ar y cyfrif: Cyfieithu/Translation

Cyfeiriad e-bost: [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) / [translation@conwy.gov.uk](mailto:translation@conwy.gov.uk)

Mae modd cael **cyfeiriad e-bost dwyieithog** hefyd e.e. [cyfieithu.translation@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu.translation@conwy.gov.uk)

## 2. Gwneud / Ateb Galwadau Ffôn

2.1 Wrth ateb y ffôn, mae'n rhaid i'r hyn ydych chi'n ei ddweud fod yn hollol ddwyieithog (mae hyn yn berthnasol i alwadau ffôn mewnol ac allanol).

2.2 Dyma enghraifft o eiriad i'w ddefnyddio:

Bore da, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Good morning, Conwy County Borough Council

Pnawn da, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Good afternoon, Conwy County Borough Council

Yn amlwg, gallwch gyfnewid "Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy" / "Conwy County Borough Council" yn yr enghreifftiau uchod ag enw dwyieithog eich Gwasanaeth neu Is-Adran - y peth pwysig i'w gofio yw bod yn rhaid i'r cyfarchiad fod yn gwbl ddwyieithog.

2.3 Pan fo unigolyn yn cysylltu â chi dros y ffôn ac yn siarad Cymraeg gyda chi, mae'n rhaid i chi ddelio gyda'r alwad yn Gymraeg bob amser.


Nid yw'n dderbyniol gofyn iddo droi i'r Saesneg os nad ydych chi'n deall Cymraeg.

Os nad ydych chi'n deall Cymraeg, cewch egluro yn gwrtais nad ydych yn siarad Cymraeg a throsglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio gyda'r alwad yn Gymraeg.

2.4 Mae'n rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol bob amser. Hynny yw, chewch chi ddim defnyddio un rhif ar gyfer gwasanaeth Cymraeg a rhif ffôn gwahanol ar gyfer y gwasanaeth Saesneg. Mae gwasanaeth sy'n gofyn i'r galwr wasgu 1 am Gymraeg a 2 am Saesneg yn dderbyniol.

2.5 Os byddwch chi'n rhoi cyhoeddusrwydd i rif ffôn, e.e. ar wefan, ar ochr fan, ar daflen etc, mae'n rhaid i chi dynnu sylw at y ffaith ein bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddai rhywbeth mor syml â:

	<p>Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg</p> <p>We welcome calls in Welsh and English</p>
---	---

yn ddigonol

- 2.6 Pan fyddwch chi'n ffonio rhywun am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi ofyn wrth yr unigolyn a yw'n dymuno derbyn galwadau ffôn oddi wrthych yn y Gymraeg, ac os yw'n dweud ei fod yn dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg, mae'n rhaid i chi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn gyda'r unigolyn hwnnw yn y Gymraeg o hynny ymlaen. Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, bydd rhaid i chi ofyn i gydweithiwr i ddelio gyda'r alwad ar eich rhan bob amser.
- 2.7 Os byddwch yn trefnu system ffôn wedi'i hawtomeiddio i ateb unrhyw alwad, mae'n rhaid i chi drefnu bod y gwasanaeth cyfan wedi'i awtomeiddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd rhaid i chi sicrhau bod y neges Gymraeg i'w chlywed gyntaf bob amser.
- 2.8 **Negeseuon ar beiriannau ateb** – Rhaid i bob neges ar beiriant ateb fod yn hollol ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'w chlywed cyn y Saesneg. Mae hyn yn cynnwys eich peiriant ateb personol chi drwy Skype yn ogystal â chyfarchion llais ar y prif system ffôn a ffonau symudol. Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, mae croeso i chi ofyn i gydweithiwr recordio eich neges llais. Os cewch anhawster technegol yn gosod neges allan o'r swyddfa, llofnod dwyieithog neu neges peiriant ateb - cysylltwch â Desg Gymorth TG.

### 3. Trefnu Cyfarfodydd / Gwahodd pobl i gyfarfodydd

Os byddwch angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod sy'n cael ei gynnal ar-lein, rhaid i'r cyfarfod hwnnw fod drwy Zoom ar hyn o bryd gan nad oes cyfleuster cyfieithu ar y pryd drwy Microsoft Teams. Byddwn yn adolygu'r gofyn yma os bydd newid yn y ddarpariaeth ar lein.

#### Cyfarfodydd Cyhoeddus

Ym mhob cyfarfod cyhoeddus, ymchwiliad cyhoeddus a gwrandawriad a gynhelir gan y Cyngor, bydd croeso i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg neu yn ddwyieithog. Er mwyn hwyluso cynnal cyfarfodydd dwyieithog, bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod o'r fath, ac ar ddechrau'r cyfarfod croesewir y rhai sy'n bresennol a'u hysbysu bod croeso iddynt siarad eu dewis iaith.

Bydd anghenion unigol yn cael eu hystyried a bydd addasiadau yn cael eu rhoi ar waith lle bo angen.

Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw hyd sicrwydd na fydd angen cyfieithydd ynddynt, naill ai:

- (a) am fod pawb fydd yn bresennol yn deall Cymraeg; neu
- (b) am fod pawb fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg; neu
- (c) am mai Cymraeg yn unig neu Saesneg yn unig yw dewis iaith pawb sy'n bresennol.

- 3.1 Os ydych chi'n gwahodd unigolyn i gyfarfod, rhaid i chi ofyn iddo ydi o eisiau defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a rhoi gwybod iddo y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

- 3.2 Os ydych wedi gwahodd unigolyn i gyfarfod, a'i fod wedi rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae'n rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych chi'n cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth y gwasanaeth cyfieithu).

Gallwch drefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar est. 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) i drefnu.

- 3.3a Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, mae'n rhaid i chi ofyn i bob unigolyn a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

- 3.3b Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf un o'r gwahoddedigion wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, yna mae'n rhaid i chi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Gallwch drefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) i drefnu.

- 3.4 Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi nodi ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu (fel y rhaglen ac ati), ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

- 3.5 Os ydych chi'n anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid i chi eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

- 3.6 Os byddwch yn gwahodd pobl i siarad mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid i chi ofyn i bob person sy'n cael ei wahodd i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac os yw'r person hwnnw yn rhoi gwybod i chi ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, yna mae'n rhaid i chi drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer y cyfarfod.

Gallwch drefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) i drefnu.

- 3.7 Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i chi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, ac mae'n rhaid i'r Cadeirydd ddweud wrth bawb sy'n bresennol:

- (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

- 3.8 **Rhaglenni a Chofnodion** - Bydd holl Raglenni a Chofnodion cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'i bwyllgorau cysylltiedig ar gael i'r Cyhoedd yn eu dewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) neu'r ddwy iaith.

- 3.9 **Adroddiadau** – Bydd pob adroddiad a baratoir gan swyddogion y Cyngor neu gan asiantau'r Cyngor ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet a'i bwyllgorau

cysylltiedig yn cael ei gyflwyno i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Pan fydd swyddogion y Cyngor yn trefnu i asiantau allanol baratoi adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor hwn neu i gyfarfod o'r Cabinet, neu bwyllgorau cysylltiedig, bydd yn rhan o'r trefniadau fod yr asiantau'n cyflwyno'r adroddiad hwnnw i'r cyfarfod yn ddwyieithog.

- 3.10 Os bydd gennych ddeunydd ysgrifenedig e.e. cyflwyniad PowerPoint i'w arddangos mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, mae'n rhaid sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae'n rhaid peidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg (mae'n rhaid i'r ddau fod yr un maint, ac yr un mor hawdd i'w weld â'r llall).

### **Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd**

- 3.11 Bydd croeso i'r cyhoedd, wrth gyfarfod wyneb yn wyneb â swyddogion y Cyngor neu gynrychiolwyr y Cyngor, gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os nad yw'r swyddog perthnasol yn gallu siarad Cymraeg, bydd swyddog arall sy'n siarad Cymraeg yn cael ei ddarparu i hwyluso'r gwaith. Lle nad oes modd trefnu bod swyddog arall ar gael i hwyluso'r cyfarfod, e.e. os nad yw deilydd swydd arbenigol yn siarad Cymraeg, yna, mae posib trefnu bod y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy gyfieithydd ar y pryd pan nad oes unrhyw opsiwn arall ar gael.

Bydd strategaethau'r Gwasanaethau ar gyfer bodloni'r angen am gynnal cyfarfodydd yn y ddwy iaith yn cynnwys:

- (a) lleoli nifer priodol o staff dwyieithog yn y gweithleoedd hynny lle bydd y cyhoedd yn aml yn cyfathrebu â'r Cyngor (e.e. derbynfydd, swyddfeydd cynghori, llyfrgelloedd, cownteri gwasanaeth ac yn y blaen);
- (b) trefnu timau gwasanaeth yn y fath fodd fel eu bod yn cynnwys staff a all gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog (e.e. timau gofal cymdeithasol; staff cartrefi preswyl a chartrefi gofal yr awdurdod; timau ymgynghorol addysg; timau cynghori ac yn y blaen);
- (c) cynnig dewis iaith bob tro y trefnir cyfarfod ymlaen llaw;
- (ch) rhoi cyhoeddusrwydd i bolisi'r Cyngor o sicrhau mai'r cyhoedd yn hytrach na'r swyddogion fydd yn dewis pa iaith i'w defnyddio mewn cyfarfodydd o'r fath;
- (d) sicrhau, yn y gweithleoedd hynny lle nad oes staff Cymraeg ar gael bob amser, bod modd nôl swyddog dwyieithog yn ddi-oed i gynnal cyfarfod yn Gymraeg pan fydd angen;
- (dd) sicrhau bod digon o swyddogion dwyieithog ymysg staff y gwahanol wasanaethau fel bod modd trefnu i o leiaf un swyddog dwyieithog fod yn bresennol ym mhob cyfarfod cyhoeddus ac eithrio'r rhai y gwyddys ymlaen llaw na fydd neb yn siarad Cymraeg ynddynt.



#### **4. Trefnu neu Ariannu Digwyddiad Cyhoeddus**

- 4.1 Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, mae'n rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hyrwyddo'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoedduswydd i'r digwyddiad).
- 4.2 Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, mae'n rhaid i chi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i bobl sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion sy'n cael eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).
- 4.3 Rhaid i unrhyw gyhoeddiadau sain mewn digwyddiadau o'r fath gael eu gwneud yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'n Saesneg bob amser.

#### **5. Ymgyrchoedd Cyhoedduswydd, Hysbysebu, Marchnata**

##### **Hysbysiadau a Datganiadau i'r Wasg a'r Cyfryngau**

- 5.1 Bydd pob hysbysiad, datganiad i'r wasg a datganiadau gan y Cyngor i'r wasg a'r cyfryngau yn cael eu darparu yn yr iaith y mae'r cyfryngau'n gweithredu ynddi.
- 5.2 Pan gyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau yng Nghymru, fe'u cyhoeddir yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.3 Bydd yr holl hysbysiadau, datganiadau i'r wasg a datganiadau gan y Cyngor i'r wasg a'r cyfryngau sy'n cael eu cyhoeddi ar y wefan yn ddwyieithog.
- 5.4 Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoedduswydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg ac yn Saesneg ac eithrio deunydd o'r fath a gynhwysir mewn cyhoeddiadau Cymraeg neu a arddangosir mewn gweithgareddau Cymraeg eu cyfrwng, pryd yr ymddengys y deunydd yn Gymraeg yn unig.

## 6. Gwybodaeth / Dogfennau ar gyfer y Cyhoedd

### Deunydd ar gyfer y Cyhoedd

- 6.1 Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, a rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg – mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd. Mewn rhai eithriadau, gellir defnyddio lliw gwahanol i wahaniaethu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg e.e. os yw'r ddwy iaith wrth ymyl ei gilydd ar boster. Cofiwch gysylltu gydag Eluned ([eluned.mair.davies@conwy.gov.uk](mailto:eluned.mair.davies@conwy.gov.uk)) neu Nia Llwyd ([nia.llwyd@conwy.gov.uk](mailto:nia.llwyd@conwy.gov.uk)) i wirio a oes modd defnyddio'r eithriad hwn gyda'ch deunydd chi.
- 6.2 Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu llunio at ddefnydd y cyhoedd gael eu llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael a chael eu harddangos ar yr un pryd.
- 6.3 Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), ni ddylech drin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd ac mae'n rhaid cynnwys yr un wybodaeth yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Mewn rhai eithriadau, gellir defnyddio lliw gwahanol i wahaniaethu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg e.e. os yw'r ddwy iaith wrth ymyl ei gilydd ar boster. Cofiwch gysylltu gydag Eluned ([eluned.mair.davies@conwy.gov.uk](mailto:eluned.mair.davies@conwy.gov.uk)) neu Nia Llwyd ([nia.llwyd@conwy.gov.uk](mailto:nia.llwyd@conwy.gov.uk)) i wirio a oes modd defnyddio'r eithriad hwn gyda'ch deunydd chi.
- 6.4 Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg ac fel arall.

Defnyddiwch y geiriad a ganlyn:

Ar y fersiwn Saesneg nodwch:

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd.**

Ar y fersiwn Gymraeg nodwch:

**This document is also available in English.**

Mae'n rhaid cynnwys y brawddegau hyn ar bob dogfen / ffurflen ac ati sy'n cael eu llunio ar wahân at ddefnydd y cyhoedd.

## 7. Ffurflenni ar gyfer y Cyhoedd

7.1 Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

7.2 Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg ac fel arall.

Defnyddiwch y geiriad a ganlyn:

Ar y fersiwn Saesneg nodwch:

**Mae'r ffurflen hon ar gael yn Gymraeg hefyd.**

Ar y fersiwn Gymraeg nodwch:

**This form is also available in English.**

Mae'n rhaid cynnwys y brawddegau hyn ar bob dogfen / ffurflen ac ati sy'n cael eu llunio ar wahân at ddefnydd y cyhoedd.

7.3 Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd ac mae'n rhaid cynnwys yr un wybodaeth yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Ni ddylech wahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).

7.4 Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg ar y fersiwn Gymraeg ac yn Saesneg ar y fersiwn Saesneg.

7.5 Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddogfen yn cael ei rhoi dros y cownter neu mewn cyfarfod un i un, bydd dewis o fersiwn Gymraeg, fersiwn Saesneg neu gopi o'r ddau yn cael eu cynnig. Mewn achosion o'r fath, bydd digon o gopiâu o'r fersiwn Gymraeg a Saesneg ar gael, a byddant yn cael eu harddangos yr un mor amlwg â'i gilydd yn swyddfeydd a derbynfeydd y Cyngor.

Fodd bynnag, pwysleisir y bydd cyhoeddi fersiynau ar wahân yn y modd hwn yn eithriad i'r rheol gyffredinol, a dylai swyddogion y Cyngor ymdrechu i wneud yn siŵr bod yr holl ffurflenni sy'n ymwneud â'u gwasanaethau nhw ar gael mewn fformat dwyieithog.

7.6 Os ydych yn llunio ffurflen o'r newydd, yna mae croeso i chi ei anfon at [cymraeg@conwy.gov.uk](mailto:cymraeg@conwy.gov.uk) i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau.

## 8. Llwyfan Ddigidol

### Gwefannau

- 8.1 Rhaid sicrhau:
- (a) bod testun pob tudalen ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg,
  - (b) bod pob tudalen Gymraeg ar unrhyw wefan sydd gennym yn gweithredu'n llawn, ac
  - (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar unrhyw wefan sydd gennym
- 8.2 Ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani, mae'n rhaid sicrhau bod modd newid o un iaith i'r llall drwy fotwm sy'n medru newid o'r dudalen Gymraeg i'r un dudalen yn Saesneg ac fel arall yn gwbl ddi-drafferth.
- 8.3 Mae'n rhaid i'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar unrhyw wefan y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Mewnrwyd

- 8.4 Pan fyddwch chi'n llunio tudalen newydd ar y fewnrwyd, cofiwch y bydd angen i chi ddarparu fersiwn Gymraeg ohono hefyd. Mae'n rhaid i bob tudalen ar ein Mewnrwyd fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ni fydd modd cyhoeddi unrhyw dudalen heb i chi anfon y ddwy fersiwn at y Tîm Gwe.

Gall y Gwasanaeth Cyfieithu eich helpu gyda chyfieithu'r dudalen – cysylltwch â [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk).

- 8.5 Mae tudalennau [Cymraeg yn y Gweithle](#) ar y fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i'ch cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg. Yma, ceir dolenni cyswllt i amryw o wefannau ac apiau defnyddiol i'ch helpu i ddefnyddio'ch sgiliau Cymraeg.

### Microsoft Teams

- 8.6 Oeddech chi'n gwybod bod modd i chi ddefnyddio Teams yn Gymraeg? Cliciwch ar y botwm Gosodiadau (settings) ac yna Cyffredinol (general) ac yna mi welwch opsiwn i newid iaith yr ap i Gymraeg. Bydd hyn yn newid y rhyngwyneb i Gymraeg.
- 8.7 Os hoffech ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio yn Teams, mae modd cael cyfieithiad sydyn o'r neges hefyd, ond erfyniwn arnoch i beidio â defnyddio'r cyfleuster hwn i gyfieithu unrhyw beth swyddogol – mae gennym dîm cyfieithu wrth law i'ch helpu â hynny.

### Apiau

- 8.8 Rhaid i bob ap yr ydym yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, ac ni ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd ac mae'n rhaid cynnwys yr un wybodaeth yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg.

### Cyfryngau Cymdeithasol

- 8.9 Wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ni ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae hyn yn golygu:

- (a) Dylech naill ai gael cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân neu gyfrif dwyieithog
- (b) Dylai unrhyw negeseuon a roddir ar gyfrifon uniaith Saesneg gael eu rhoi mewn cyfrif arall yn Gymraeg union yr un pryd.
- (c) Dylai unrhyw negeseuon ar gyfrifon dwyieithog gael eu postio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd
- (ch) Os oes gennych gyfrif dwyieithog yn hytrach na chyfrif Cymraeg a Saesneg ar wahân, mae angen i enw'r cyfrif fod yn ddwyieithog hefyd, gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg wedyn.

- 8.10 Os bydd rhywun yn cysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, mae'n rhaid ateb yn Gymraeg hefyd.

## Fideos

- 8.11 (a) **Fideo Gwybodaeth**  
Os byddwch yn creu fideo yn Saesneg, at ddefnydd y cyhoedd neu staff mewnol, sy'n fideo gwybodaeth e.e. cyflwyniad i adeilad newydd fel y fideo cyflwyno Coed Pella, gwybodaeth am ailgylchu yn y sir neu wybodaeth am addysg etc, yna mae'n rhaid i chi hefyd greu fersiwn hollol Gymraeg ohono. Mewn fideo o'r fath, ni ddylech drin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg felly rhaid i unrhyw destun gael ei weld yn Gymraeg neu unrhyw sain gael ei ddweud yn Gymraeg (hynny yw, nid yw clywed sain Saesneg gydag is-deitlau Cymraeg yn dderbyniol) ar gyfer fideo gwybodaeth.
- (b) **Fideo yn 'cyfweld' / 'sgwrsio' ag aelod o staff / y cyhoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg**  
Os byddwch yn creu fideo yn Saesneg, at ddefnydd y cyhoedd neu staff mewnol, sy'n cynnwys cyfweiliad neu sgwrs gydag aelod o staff / aelod o'r cyhoedd nad yw'n siarad Cymraeg / sy'n dewis siarad yn Saesneg, yna, mae angen creu fersiwn Gymraeg o'r fideo hwn, ond yn yr achos hwn, cewch gynnwys y clip hwnnw ar yr ochr Gymraeg gydag is-deitlau Cymraeg.

Os nad ydych chi'n siŵr os yw eich fideo angen bod yn hollol Gymraeg ai peidio, cysylltwch ag Eluned Mair Davies, Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg am gyngor – [eluned.mair.davies@conwy.gov.uk](mailto:eluned.mair.davies@conwy.gov.uk)

## Peiriannau Hunanwasanaeth

- 8.12 Mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.

## 9. Arwyddion

Bydd pob arwydd, boed yn fewnol yn swyddfeydd y Cyngor, neu'n allanol at ddefnydd y cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Arwyddion Allanol

- 9.1 Pan fyddwch chi'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd.
- 9.2 Pan fyddwch chi'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi uwchben y testun Saesneg, neu'r testun Cymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 9.3 Rhaid sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant. I wneud hynny, mae angen anfon pob arwydd at y Gwasanaeth Cyfieithu i'w wirio ([cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk)) cyn i chi drefnu iddo gael ei lunio a'i osod.

### Arwyddion Mewnol

Mae Arwyddion Mewnol yn cyfeirio at unrhyw fath o arwydd, boed yn arwydd sefydlog yn y gweithle, yn un wedi'i argraffu, neu'n un sy'n ymddangos ar sgrîn electronig. Gall fod yn arwydd sy'n rhoi gwybod i staff pa gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal mewn ystafell, enw'r Gwasanaeth ar brif ddrws y gwasanaeth etc.

- 9.4 Pan fyddwch chi'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid peidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r testun fod yr un maint, yr un ffont, yr un lliw ac ati â'i gilydd.

- 9.5 Pan fyddwch chi'n gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn y gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi uwchben y testun Saesneg, neu'r Gymraeg ar y chwith a'r Saesneg ar y dde.
- 9.6 Rhaid i chi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn y gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

## 10. Enwau Strydoedd

- 10.1 [Polisi'r Cyngor](#) mewn perthynas ag enwi strydoedd yw mabwysiadu enwau sy'n adlewyrchu hanes a threftadaeth yr ardal, gyda'r bwriad o gefnogi'r defnydd o enwau strydoedd Cymraeg traddodiadol ar gyfer safleoedd lleol a lle bo'r rhain yn briodol i ardal sy'n cael ei datblygu.

Cynghorir ymgeiswyr i ymgynghori â ffynonellau lleol fel Archifau'r Sir a chymdeithasau hanesyddol cyn cyflwyno ceisiadau. Pan fo amgylchiadau arbennig yn codi, bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

Wrth ymdrin â cheisiadau ar gyfer caniatâd cynllunio i osod arwyddion, bydd Adran Gwasanaethau Cynllunio'r Cyngor yn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gosod arwyddion dwyieithog, a byddant yn sicrhau bod datblygwyr yn mabwysiadu enwau Cymraeg neu enwau dwyieithog ar ddatblygiadau newydd.

Cyn archebu / gosod arwydd enw stryd newydd, rhaid ei anfon at y Gwasanaeth Cyfieithu ([cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk)) i'w wirio.

## 11. Derbynfeydd

- 11.1 Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac ni ddylem drin unrhyw un sydd eisiau cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn llai ffafriol na pherson sydd eisiau cael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Rhaid i aelodau staff sy'n gweithio ar dderbynfeydd fedru siarad Cymraeg yn rhugl.
- 11.2 Mae'n rhaid arddangos arwydd ym mhob derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.

Mae gan y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu gyflenwad o'r arwyddion priodol – cysylltwch â [cymraeg@conwy.gov.uk](mailto:cymraeg@conwy.gov.uk) neu [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) ac mi wnawn bostio copi atoch.

## 12. Cortynnau Gwddf Cymraeg / Dysgwyr

- 12.1 Er mwyn ei gwneud yn haws i staff wneud defnydd o'u sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac hefyd, er mwyn dangos i'r cyhoedd bod dewis iaith ar gael, mae cortynnau gwddf a bathodynau ar gael ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, a chortynnau gwddf ar gael ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r bathodynau/cortynnau gwddf hyn yn ffordd dda o wybod pa aelodau eraill o staff sy'n siarad Cymraeg.

### **Siaradwyr Cymraeg rhugl**

Mae'n rhaid i bob aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wisgo bathodyn neu gortyn gwddf sy'n cyfleu hynny (cortyn gwddf du â swigen oren Cymraeg).

### **Dysgwyr Cymraeg**

Mae'r Cyngor wedi comisiynu cortynnau gwddf ar gyfer yr aelodau hynny o staff sy'n dysgu Cymraeg hefyd.

I gael cortyn gwddf ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl neu ar gyfer dysgwyr, cysylltwch â [cymraeg@conwy.gov.uk](mailto:cymraeg@conwy.gov.uk) neu [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) ac mi wnawn bostio rhai atoch.

## 13. Hysbysiadau Swyddogol a Hysbysiadau Cyhoeddus

- 13.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydym yn ei gyhoeddi neu ei arddangos, gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, a rhaid peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.
- 13.2 Pan fyddwch chi'n cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys testun Cymraeg yn ogystal â thestun Saesneg, mae'n rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi uwchben y testun Saesneg.

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o hysbysiad ar wahân, rhaid sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg ac fel arall. Defnyddiwch y geiriad a ganlyn:

Ar y fersiwn Saesneg nodwch:

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd.**

Ar y fersiwn Gymraeg nodwch:

**This document is also available in English.**

Eithriadau i'r uchod fydd:

- (a) hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.



## 14. Nawdd a Grantiau gan y Cyngor

- 14.1 Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.
- 14.2 Pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- 14.3 Ni ddylem drin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).
- 14.4 Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweled ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid i chi:
- (a) gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweled oni bai eich bod chi'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac
  - (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweled, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych chi'n cynnal y cyfweled yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Gallwch drefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) i drefnu.

- 14.5 Os cafodd cais ei gyflwyno yn Gymraeg, pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, yna mae'n rhaid i chi wneud hynny'n Gymraeg.

## 15. Tendrau

- 15.1 Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd, ac ni ddylech drin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

Rhaid cydymffurfio â'r safon hon yn yr amgylchiadau isod:

- (a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu
  - (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.
- 15.2 Os byddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

- 15.3 Ni ddylech drin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).
- 15.4 Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, ac nad ydych chi'n deall Cymraeg, rhaid i chi:
- (a) gynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, ac
  - (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw.

Gallwch drefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk) i drefnu.

- 15.5 Pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i dendrwr beth yw eich penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os cafodd y tendr ei gyflwyno yn Gymraeg.

## **16. Hunaniaeth Gorfforaethol**

- 16.1 Bydd hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus y Cyngor yn ddwyieithog, ac ni fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **17. Cyrsiau sy'n agored i'r Cyhoedd:**

- 17.1 Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ei gynnig yn Gymraeg.
- 17.2 Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

## **18. Negeseuon dros systemau sain**

- 18.1 Pan fyddwch chi'n cyhoeddi neges dros system sain, neu'n cyhoeddi gwybodaeth drwy ddefnyddio offer sain yn y gweithle rhaid i chi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd ac mae'n rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

## Adran B – Safonau Llundio Polisi

Wrth ddatblygu polisi newydd, neu wrth adolygu polisi sydd eisoes yn bodoli, dylech hefyd lenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cynnwys ystyried materion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr Asesiad yn cael ei anfon at Reolwr y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg i'w ystyried ac i'w drafod gyda chi.

### 19. Llundio Polisi

- 19.1 Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.2 Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.3 Pan fyddwch chi'n llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.4 Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.5 Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar –
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 19.6 Pan fyddwch chi'n cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.7 Rhaid i'r Cyngor lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch chi'n gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant –
- (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar:
    - (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
    - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  - (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:
    - (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
    - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  - (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar:
    - (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
    - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
  - (ch) a oes angen i chi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar –
    - (i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
    - (ii) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.8 Pan fyddwch chi'n comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- 19.9 Pan fyddwch chi'n comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 19.10 Pan fyddwch chi'n comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar –
- (a) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## Adran C – Safonau Gweithredu

### 20. Camau Gweithredu i Reolwyr Atebol

**Ydych chi'n Reolwr Atebol? Os ydych, mae angen i chi ddilyn y camau isod.**

#### Penodi Staff Newydd

- 20.1 Pan fyddwch chi'n cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid i chi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid i chi ddarparu'r contract yn Gymraeg. Mae templedi Cymraeg a Saesneg ar gael gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol [yma](#).
- 20.2 Rhaid i chi –
- (a) ofyn wrth bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a
  - (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.
- 20.3 Rhaid i chi ofyn wrth bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.
- 20.4 Rhaid i chi ofyn wrth bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.
- 20.5 Rhaid i chi ofyn wrth bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid i chi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.
- 20.6 Mae gan aelodau staff hawl i ddefnyddio system oriau hyblyg yn Gymraeg. Mae VisionTime ar gael yn Gymraeg ac ar gael [yma](#). Os nad yw staff yn defnyddio'r system VisionTime, mae angen sicrhau bod unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi:
- (a) gwyliau,
  - (b) absenoldebau o'r gwaith, ac
  - (c) oriau gwaith,
- yn cael eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 20.7 Pan fydd aelod staff newydd yn cychwyn gweithio i'r Cyngor, bydd yn cael dewis mynychu cyflwyniad corfforaethol yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## 21. Materion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol

### Cyhoeddi Polisiâu

- 21.1 Bydd pob polisi y mae'r Cyngor yn eu llunio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser.
- 21.2 Rhaid i chi caniatáu i bob aelod o'ch staff fedru:
- (a) gwneud cwynion i chi yn Gymraeg, ac
  - (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.
- 21.3 Rhaid i unrhyw ddogfen sy'n nodi ein gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion ddatgan y caiff pob aelod o staff:
- (a) wneud cwyn i chi yn Gymraeg, a
  - (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid i chi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.
- 21.4 Os bydd yr Adnoddau Dynol yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, byddant yn:
- (a) gofyn wrth yr aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
  - (b) esbonio y bydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddant yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydynt yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).
- 21.5 Pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff:
- (a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,
  - (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,
  - (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
  - (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.
- 21.6 Bydd y Cyngor yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.
- 21.7 Rhaid i unrhyw ddogfen sy'n nodi ein trefniadau ar gyfer disgyblu staff ddatgan y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, ac os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn

perthynas ag aelod o staff, rhaid i chi roi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.

- 21.8 Os bydd cyfarfod yn cael ei drafod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, byddant yn:
- (a) gofyn wrth yr aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac yn
  - (b) esbonio y byddant yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddant yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydynt yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).
- 21.9 Pan fyddwch chi'n rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid i chi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff –
- (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,
  - (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
  - (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.

## 22. Technoleg Gwybodaeth

- 22.1 **Gwirydd sillafu Cymraeg** - Mae modd i bob aelod o staff wirio sillafu Cymraeg yn MS Word yn union fel y byddech chi'n ei wneud yn Saesneg. Yn y gosodiadau iaith, dewiswch 'Cymraeg' / 'Welsh' a gwnewch yn siŵr fod tic a'r llythrennau A B C uwch ei ben. Os nad oes, cysylltwch â Desg Gymorth TG a gofyn wrthyn nhw ei osod .
- 22.2 **Cysgliad** – Pecyn yw Cysgliad sy'n cynnwys Cysill, rhaglen sy'n gwirio sillafu a gramadeg, a Cysgeir sef rhaglen sy'n cynnwys geiriadur Cymraeg - Saesneg a theclynnau hwylus eraill. Mae Cysgliad ar bob gliniadur sy'n eiddo i'r Cyngor (ar Microsoft Word dan Adolygu / Review neu Ategiion / Add-ins yn dibynnu ar ba fersiwn o Word sydd gennych). Os nad yw ar eich gliniadur chi, cysylltwch â Desg Gymorth TG a gofyn wrthyn nhw ei osod. Gall staff y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu egluro wrthy ch sut mae defnyddio gwahanol declynnau'r pecyn.
- 22.3 **MS Office yn Gymraeg** - Mae modd newid pob rhaglen MS Office ar eich cyfrifiadur i'r Gymraeg. Os hoffech wneud hynny, bydd y Ddesg Gymorth TG yn medru gosod Pecyn Rhyngwyneb Cymraeg Microsoft Office i chi. Byddwch yn cael opsiwn o'i gael yn eich cyfarfod cyflwyno hefyd.



### **23. Sgiliau Cymraeg staff y Cyngor**

- 23.1 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn casglu gwybodaeth barhaus am sgiliau iaith staff y Cyngor er mwyn nodi nifer y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ym mhob gwasanaeth.
- 23.2 Mae angen i bob aelod o staff lenwi gwybodaeth am ei sgiliau iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r teclyn ar y [fewnrwyd](#) (ac yna clicio ar 'gwirio eich manylion' ar waelod yr hafan dudalen).
- 23.3 Drwy lenwi'r wybodaeth yma, bydd yn diweddararu cofnod yr aelod staff ar y Rhestr Cyswllt Staff ac hefyd, os ydynt yn gallu siarad Cymraeg ar Lefel 4 neu 5, bydd neges awtomatig yn ymddangos wrth i aelod staff gysylltu â nhw dros e-bost yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Drwy hyn, bydd modd gweld cyn gysylltu ag aelod o staff a ydynt yn siaradwyr Cymraeg ai peidio.

### **24. Cyrsiau Cymraeg i staff**

- 24.1 I hwyluso eich defnydd o'r Gymraeg, mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn:
- (a) recriwtio a chyfweld;
  - (b) rheoli perfformiad;
  - (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
  - (ch) cyflwyniad corfforaethol;
  - (d) delio â'r cyhoedd; ac
  - (dd) iechyd a diogelwch
- 24.2 Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn:
- (a) cyfarfodydd;
  - (b) cyfweiliadau; a
  - (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

## 25. Dysgu Cymraeg

Mae'r Cyngor yn ffodus o fod yn rhan o Gynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer staff sydd eisiau dysgu Cymraeg. Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhaglen benodol i gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru yw Cymraeg Gwaith. Mae'r gwersi am ddim i staff y Cyngor. Os hoffech wybodaeth bellach am ein cyrsiau i ddysgu Cymraeg, mae croeso i chi gysylltu â'r Tiwtor, Menna Morris ([menna.morris@conwy.gov.uk](mailto:menna.morris@conwy.gov.uk)).

25.1 Yn unol â Safonau'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith:

- (a) i aelodau staff gael gwersi Cymraeg, ac
- (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Mae hyn yn golygu bod dyletswydd ar bob Gwasanaeth i ryddhau staff i fedru mynychu gwersi'n rheolaidd neu roi amser iddynt hunan-astudio yn ystod oriau gwaith.

25.2 Bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd i aelodau staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

25.3 Bydd y Cyngor yn darparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i aelodau staff ddatblygu:

- (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
- (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## 26. Adnoddau Dynol

### Staffio

- 26.1 Er mwyn i'r Cyngor allu gwasanaethu siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg fel ei gilydd heb drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ganddo ddigon o siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar y sgiliau cyfathrebu priodol i ddarparu gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg yn y gweithleoedd hynny a'r sefyllfaoedd gwasanaeth hynny lle cysylltir â'r cyhoedd yng Nghymru.
- 26.2 Bydd trefniadau staffio pob gwasanaeth yn destun adolygiad parhaus, er mwyn nodi blaenoriaethau pob Gwasanaeth ar gyfer ymdrin ag unrhyw ddiffygion sgiliau dwyieithog.
- 26.3 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, bydd y Cyngor yn casglu gwybodaeth am sgiliau iaith y staff Cyngor er mwyn nodi nifer y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ym mhob gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn gwneud hynny drwy ddefnyddio teclyn ar y fewnrwyd.
- 26.4 Drwy gynnal a dadansoddi'r Asesiad uchod yn barhaus, bydd y swyddogion yn gallu dynodi'r gweithleoedd hynny a'r swyddi hynny lle bydd medru siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Gellir diffinio'r angen hwnnw fel un sydd ynghlwm wrth weithle, sefyllfa neu dîm penodol, yn hytrach na'i gysylltu â swydd benodol. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogion i osod swyddi newydd yr Awdurdod a phob swydd a ddaw yn wag mewn un o'r ddau gategori a ganlyn:
- (a) Swyddi y mae rhuglder yn Gymraeg yn hanfodol oherwydd eu cysylltiad â'r cyhoedd; neu am resymau eraill (e.e. cyfieithwyr, swyddog y wasg, staff derbynfeydd, swyddogion sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion diamddiffyn ac ati)
- (b) Swyddi y mae rhuglder yn y Gymraeg neu wybodaeth o'r Gymraeg yn ddymunol.

Bydd pob un o swyddi newydd y Cyngor a phob swydd sy'n dod yn wag ac y bwriedir ei llenwi yn cael eu gosod yn un o'r ddau gategori hyn.

Er mwyn cynorthwyo'r swyddogion a'r pwyllgorau priodol i weithredu yn unol â'r amcanion staffio hyn, rhoddir y canllawiau cyffredinol a ganlyn, sy'n seiliedig ar yr hyn y mae'n deg ac yn rhesymol i'r cyhoedd ei ddisgwyl:

- (a) Bydd y Gwasanaethau'n sicrhau bod ganddynt swyddogion sy'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg yn y swyddi a ganlyn: teleffonyddion switsfwrdd; swyddogion derbynfa; swyddogion cownteri'r Cyngor.
- (b) Ym mhrif swyddfeydd a phrif weithleoedd y Cyngor, sicrheir bod nifer digonol o staff sy'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y Gwasanaethau'n sicrhau bod canran briodol o siaradwyr Cymraeg ymhlith eu staff, a bod cyfarwyddyd pendant iddynt ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn.

- (c) Bydd penaethiaid timau o swyddogion a ddaw i gysylltiad â'r cyhoedd yn trefnu eu timau mewn modd sy'n sicrhau nad yw eu gwasanaeth yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 27. Recriwtio i Swydd Wag

27.1 Wrth hysbysebu swydd, mae angen anfon popeth at y Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu er mwyn i ni wirio dynodiad iaith y swydd a chyfieithu'r swydd-ddisgrifiad **CYN** anfon y swydd at Adnoddau Dynol i gael cymeradwyaeth i hysbysebu'r swydd.

27.2 Dyma'r camau sydd angen eu dilyn:

- Ysgrifennu'r Swydd-ddisgrifiad a'r Hysbyseb gan ddefnyddio'r templedi priodol (i'w cael ar ein [mewnrwyd](#)).
- Mae'n bwysig eich bod yn nodi'r dynodiad iaith ar yr hysbyseb a'r Manylion am yr Unigolyn – mae hyn yn un o ofynion y Safonau. Mae nodi Hanfodol / Dymunol yn ddigon ar y Manylion am yr Unigolyn, ond ar gyfer yr hysbyseb, mae angen rhoi eglurhad pellach er mwyn egluro'n union beth y bydd disgwyl i'r sawl sy'n llwyddiannus ei wneud ac felly, gobeithio, denu mwy o ymgeiswyr hefyd. Felly yn lle nodi "**Mae Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon**" yn unig, gallech nodi e.e.
  - Mae'r gallu i sgwrsio'n gartrefol gyda chwsmeriaid yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Mae sgwrsio'n gartrefol gyda chwsmeriaid ac ateb gohebiaeth syml yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Mae'r gallu i gynnal sgwrs syml yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Mae'r gallu i roi cyflwyniadau cyhoeddus a pharatoi adroddiadau yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Mae'r gallu i gynnal asesiadau seicolegol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a'r gallu i gyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig yn y ddwy iaith yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Rydym yn chwilio am unigolyn sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg i safon uchel ar lafar ac yn ysgrifenedig er mwyn ymgymryd â chyfweliadau yn y wasg ac ymateb i ohebiaeth dechnegol.
  - Mae'r gallu i arwain gweithgareddau i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon
  - Mae'r gallu i ysgrifennu llythyrau a chofnodion mewn Cymraeg cywir yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
  - Mae'r gallu i roi cyfarwyddiadau a chyngor yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon a'r gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg yn ddymunol.

Mae croeso i chi newid yr enghreifftiau uchod i fod yn berthnasol i'r swydd rydych chi'n recriwtio iddi.

- Cofiwch lenwi'r Ffurflen Dynodiad Cymraeg yn llwyr gan wneud yn siŵr eich bod yn nodi sawl siaradwr Cymraeg sydd eisoes yn y tîm a'ch bod hefyd yn defnyddio'r Siart Llif i Benderfynu ar Ddynodiad (Cymraeg yn hanfodol / Cymraeg yn ddymunol) ar gyfer Swydd Wag newydd i gyrraedd eich penderfyniad
- Sylwch ei bod yn bwysig iawn eich bod yn defnyddio'r templedi/ffurflenni priodol – os nad ydych chi'n anfon y rhain atom, yna ni fydd gennym ddewis ond eu hanfon yn ôl atoch er mwyn i chi eu newid.
- Os nad oes gennych gopiâu Cymraeg o'r hysbyseb / swydd-ddisgrifiad eisoes, bydd angen i chi drefnu i'w cyfieithu drwy lenwi Ffurflen Archebu Cyfieithiad ac anfon y dogfennau ymlaen at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk).
- Gofynnwn yn garedig i chi roi'r testun Saesneg i mewn i'r templed Cymraeg cyn ei anfon atom.
- Bydd y cyfieithydd yn anfon y dogfennau'n ôl wedi'u cyfieithu atoch.
- Yna, er mwyn cymeradwyo eich dogfennau a'r dynodiad rydych wedi'i ddewis, mae angen anfon y dogfennau a ganlyn at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk):
  - Hysbyseb y Swydd (Cymraeg a Saesneg)
  - Swydd-ddisgrifiad (Cymraeg a Saesneg)
  - Ffurflen Dynodiad Iaith
- Bydd y dynodiad rydych wedi'i bennu ar gyfer y swydd yn cael ei wirio, ac os bydd angen, yn cael ei drafod gyda chi.
- Bydd y dogfennau ynghyd â'r Ffurflen Dynodiad Iaith yn cael eu dychwelyd atoch.
- Yna, bydd angen i chi anfon y 4 dogfen (Hysbyseb Cymraeg a Saesneg, Swydd-ddisgrifiad Cymraeg a Saesneg a'r Ffurflen Dynodiad Iaith) ymlaen at y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd â'r ffurflenni eraill perthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am y Weithdrefn Rheoli Hysbysebu Swyddi Gwag i'w weld ar [fewnwyd yr Adnoddau Dynol](#).
- Rhaid i bob hysbyseb swydd a phob swydd-ddisgrifiad gael eu hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar bob gwefan ac ym mhob cylchgrawn/papur newydd sy'n cael ei gyhoeddi yng Nghymru.

## 28. Trefnu Cyfweiliadau

- 28.1 Os yw'r ymgeisydd wedi nodi ar y ffurflen gais ei fod yn dymuno i'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg, bydd gofyn i chi sicrhau bod gennych fodd o wneud hynny. Yn ddelfrydol, dylid cynnal y cyfweiliad gyda phanel sy'n rhugl yn Gymraeg, ond os oes aelod o'r panel yn ddi-Gymraeg, bydd gofyn i chi drefnu bod cyfieithydd ar y pryd ar gael – i wneud hynny, ffoniwch y Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk). Bydd angen rhoi gwybod i'r ymgeisydd mai drwy gyfieithydd mae ei gyfweiliad.
- 28.2 Os ydych yn cyfweled am swydd Cymraeg hanfodol, cofiwch bod rhaid i o leiaf hanner y cwestiynau gael eu gofyn yn Gymraeg gan aelod o'r Panel, ac os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, bydd gofyn i chi drefnu bod rhywun ar gael i ofyn y cwestiynau yn Gymraeg a phrofi sgiliau iaith Gymraeg y rhai sy'n cael eu cyfweled i wneud yn siŵr eu bod yn medru siarad Cymraeg.
- NI ELLIR** recriwtio unrhyw un i swydd Cymraeg hanfodol os nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl (lefel 4 neu 5). Yn ddelfrydol, dylid cynnal y cyfweiliad gyda phanel sy'n rhugl yn Gymraeg, ond os oes aelod o'r panel yn ddi-Gymraeg, bydd gofyn i chi drefnu bod cyfieithydd ar y pryd ar gael – i wneud hynny, ffoniwch yr Gwasanaeth Cyfieithu ar 6081/6082/6080 neu anfonwch neges at [cyfieithu@conwy.gov.uk](mailto:cyfieithu@conwy.gov.uk).
- 28.3 Os yw'r ymgeisydd wedi nodi ar ei ffurflen gais ei fod yn dymuno cael gohebiaeth yn Gymraeg, bydd angen i chi anfon y llythyr yn ei wahodd i gyfweiliad ato, ac unrhyw ohebiaeth arall yn Gymraeg yn unig.
- 28.4 Ar ôl penodi, eto bydd angen anfon unrhyw ohebiaeth at yr ymgeisydd llwyddiannus yn ei ddewis iaith yn ôl ei ddymuniad.

## 29. Cyhoeddiadau dros offer sain

- 29.1 Pan fyddwch chi'n gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn y gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg i ddilyn bob amser.

## 30. Cwynion

- 30.1 Yn unol â'r Safonau, mae'n rhaid i ni gadw cofnod o bob cwyn yr ydym yn ei chael mewn perthynas â'r Gymraeg. Cofiwch felly ei bod hi'n bwysig cofnodi unrhyw gŵyn am y Gymraeg fel cwyn sy'n ymwneud ag iaith yn y system gwynion.
- 30.2 Gall Eluned ([eluned.mair.davies@conwy.gov.uk](mailto:eluned.mair.davies@conwy.gov.uk)) neu Nia Llwyd ([nia.llwyd@conwy.gov.uk](mailto:nia.llwyd@conwy.gov.uk)) eich helpu i ymateb i unrhyw gŵyn o'r fath sy'n cyrraedd hefyd.

## **Adran Ch – Safonau Hyrwyddo'r Gymraeg**

Yn unol â Safon 145 ac 146, mae gennym Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Gellir ei gweld [yma](#).

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



## Canlyniadau Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Llywio'r Gymraeg
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	8 Tachwedd, 2022
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	Gary Williams / Cynghorydd Emrys Wynne
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg

### 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn ym ymwneud â chanlyniadau Adroddiad Monitro Comisiynydd y Gymraeg.

### 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wiriadau cydymffurfio a wneir gan Gomisiynydd y Gymraeg a chymeradwyo Cynllun Gweithredu.

### 3. Beth yw'r Argymhellion?

I nodi'r canfyddiadau a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu.

### 4. Manylion yr Adroddiad

Bob blwyddyn, mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal gwiriadau ymhlith sefydliadau sy'n gweithredu'r Safonau iaith statudol, er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hynny'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn trefnu cyfarfodydd blynyddol i drafod y canfyddiadau.

Esboniodd Dylan Jones, ar ran y Comisiynydd, ffordd newydd y Comisiynydd o weithio eleni o edrych ar gydymffurfriad sefydliadau â'r safonau perthnasol. Recriwtio a Pholisïau yw eu blaenoriaeth.

## Y CANFYDDIADAU

### CYFLENWI GWASANAETHAU

#### Corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau a ffurflenni

Yn ystod arolygon 2022-23 darganfuwyd nad oedd pob dogfen a ffurflen yn cynnwys datganiad ar y fersiynau Saesneg eu bod hefyd ar gael yn y Gymraeg. Roedd 2 enghraifft o ddogfen nad oedd yn cydymffurfio â safon 49 sef:

<https://www.sirddinbych.gov.uk/en/documents/education/school-information-guides/schools-information-guide-2022-2023.pdf>

<https://www.sirddinbych.gov.uk/en/documents/your-council/strategies-plans-and-policies/policies/education-and-schools/learner-transport-policy-v2.pdf>

Roedd 3 enghraifft o ffurflen nad oedd yn cydymffurfio â safon 50A sef:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/licences-permits-and-trading-standards/business-and-street-trading-licences/taxi-licences/hackney-carriage-private-hire-drivers-licence-application.pdf>

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/licences-permits-and-trading-standards/business-and-street-trading-licences/taxi-licences/taxi-driver-medical-assessment-form-v2.pdf>

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/licences-permits-and-trading-standards/business-and-street-trading-licences/taxi-licences/notification-of-motoring-conviction-form.pdf>

#### Apiau

Nododd y Cyngor gydymffurfiaeth canolig ar gyfer ei apiau gan nodi nad oedd yr ap Parentpay ar gael yn y Gymraeg. Trafodwyd nad oedd Parentpay yn ap oedd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor a chadarnhawyd mai yr ysgolion eu hunain oedd â chytundeb gyda'r cwmni.

## Defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol

Yn ystod arolygon 2022-23 nodwyd bod un neges ar Twitter ac un neges ar Facebook wedi'u cyhoeddi yn uniaith Saesneg ar gyfryngau corfforaethol y Cyngor.

<https://twitter.com/DenbighshireCC/status/1539307770410700802>

[https://www.facebook.com/photo/?fbid=396944645808880&set=a.305457728290906&\\_cft\\_\\_\[0\]=AZU0IC8EtS7cdGPx9KnnJuLt8nJkko8i-XNMyuxHolZgzH2o-dNxaGPQI19TYyct6X1oDQXCBMndctXzyHjHngFVcA7jFP4uG8RDrtSmeOg2mKz-8gYi0OMa8145GYZ3Fi4J7F7obnDqCjXPOdPzCB6fkV\\_7kS6eyC-TYuj8mnok\\_21KI5IMlIOzDvjT2E6kCl&\\_tn\\_=%2CO%2CP-R](https://www.facebook.com/photo/?fbid=396944645808880&set=a.305457728290906&_cft__[0]=AZU0IC8EtS7cdGPx9KnnJuLt8nJkko8i-XNMyuxHolZgzH2o-dNxaGPQI19TYyct6X1oDQXCBMndctXzyHjHngFVcA7jFP4uG8RDrtSmeOg2mKz-8gYi0OMa8145GYZ3Fi4J7F7obnDqCjXPOdPzCB6fkV_7kS6eyC-TYuj8mnok_21KI5IMlIOzDvjT2E6kCl&_tn_=%2CO%2CP-R)

## 2 SAFONAU GWEITHREDU

### Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth y corff

Nodwyd yn yr holiadur hunanasesu nad oedd gan y Cyngor bolisi ar ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth corff.

### Safonau recriwtio ac apwyntio

Nodwyd yn ystod arolygon 2022-23 bod 2 hysbyseb swydd yn cynnwys geiriau a/neu teitlau uniaith Saesneg.

#### Swydd 1

Cydlynnydd Tîm Adnoddau Cymunedol

Cyfeirnod y swydd: CSSS00077W3LDE

**Gwallau: Pecyn Location: Ruthin/Corwen Hours: 37 per week Permanent**

#### Swydd 2

Administration Officer - Team Around the Family

Cyfeirnod y swydd: ESEI00074W3FDE

## Gwall: Teitl uniaith Saesneg

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr Iaith a diwylliant Cymraeg, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor

### **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Er nad oes angen Asesiad o Effaith Llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r buddion allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant a Chenhedlaeth y Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau Iaith Gymraeg.

Un o gydrannau allweddol Deddf Llesiant a chenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

### **8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y brif risg yw i enw da'r awdurdod, gan ein bod eisoes wedi ymrwymo yn ein Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy Safonau'r Gymraeg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac o fewn cymunedau.

## 9. Cynllun Gweithredu

Cam Gweithredu	Pwy sy'n gyfrifol?	Erbyn pryd?
Gadael i'r adrannau perthnasol wybod am y materion sydd wedi'u codi gan y Comisiynydd.	Manon Celyn	Tachwedd 2022
Gwaith Cyfathrebu mewnol i atgoffa staff o'u dyletswydd i gydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg ynghylch ateb y ffôn, ymateb i ohebiaeth a threfnu cyfarfodydd.	Manon Celyn	Tachwedd 2022- Mawrth 2023
Cynnal ymchwil fewnol/allanol blynyddol i wirio cydymffurfiad y sefydliad â'r Safonau.	Manon Celyn / Menter Iaith Sir Ddinbych	Ebrill 2022

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r</b>	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
<b>Dyddiad y Cyfarfod</b>	8 Tachwedd 2022
<b>Aelod/Swyddog Arweiniol</b>	Gary Williams / Cynghorydd Emrys Wynne
<b>Awdur yr Adroddiad</b>	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
<b>Teitl</b>	Gweithgareddau i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r weithgaredd yn ystod 2022 a chymeradwyo'r cynnig ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo 2023.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Gweithlu dwyieithog

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith allweddol i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y Safonau Iaith yn cael eu cyflwyno. Dyma rhai o'r prosiectau hynny:

### Eisteddfod Staff

Cynhaliodd y Cyngor ei phedwaredd Eisteddfod rhwng Chwefror 18fed a Mawrth 1af fel rhan o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y

Cyngor i godi proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan mae sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd wedi dychwelyd i'r sir fis Mai 2022. Unwaith eto eleni, o ganlyniad i covid-19, cynhaliwyd Eisteddfod ddigidol. Defnyddiwyd ein tudalen facebook staff preifat fel plattform i gynnal yr Eisteddfod a hyrwyddo categorïau amrywiol i staff gystadlu ynddynt drwy uwch lwytho llun i gyd-fynd â phob categori. Roedd y categorïau'n cynnwys Anifail anwes yn y cyflwr gorau, Anifail Mwyaf Talentog, Cyn ac ar ôl/Hen a newydd, brawddeg o'r gair DEWI SANT, fy hoff le yn Sir Ddinbych a llawer mwy. Er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan yn yr Eisteddfod, penodwyd holl staff y cyngor fel beirniaid. Roeddynt yn dewis yr enillwyr trwy 'hoffi' y lluniau/fideos ar y dudalen facebook, a'r rheiny oedd â'r mwyaf o bleidleisiau oedd yn ennill. Roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a dderbyniwyd yn galonogol iawn eto eleni ac roedd llawer o ymgysylltiad gan staff.

### **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych**

Dychwelodd Eisteddfod yr Urdd i Sir Ddinbych fis Mai eleni ar Fferm Kilford ar gyrion Dinbych. Dechreuwyd ar y paratodau yn 2018, ond o ganlyniad i'r pandemig cafodd yr Eisteddfod ei gohurio 2 waith. Fe wnaethom ail-gydio yn y trefnu yn 2021 ac rydym wedi cael misoedd prysur iawn yn arwain at yr Eisteddfod.

Cyngor Sir Ddinbych oedd un o brif noddwyr Eisteddfod yr Urdd eleni ac roeddynt hefyd yn noddi'r ddwy sioe – sioe gynradd 'Ni yw y byd' a'r sioe uwchradd 'Fi di Fi'.

Roedd gennym babell fawr ar faes yr Eisteddfod o dan y thema 'Darganfod Sir Ddinbych' a sawl adran wahanol megis Theatr, busnes / twristiaeth, celf a chrefft a chefn gwlad. Roedd hi'n eisteddfod lwyddiannus iawn gyda pabell y Cyngor yn brysur trwy'r dydd, bob dydd. Braff oedd gweld cymaint o gynnwrf a bwrlwm ar y maes wedi hir ymaros.

### **Paned a Sgwrs**

Mae'r sesiynau'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Disgynnodd y niferoedd yn ystod 2021 o ganlyniad i'r sesiynau fod wedi symud i fod yn rhithiol, Mae gennym glwb darllen unwaith y mis sy'n digwydd wyneb yn wyneb yn Llyfrgell Dinbych a Rhuthun. Mae staff yn cael cyfle i ddewis llyfr o'r gyfres 'Amdani' sy'n addas ar gyfer dysgwyr a'i ddarllen erbyn y sesiwn nesaf. Byddwn yn trafod y llyfr ac yn rhoi cyfle i staff fynegi eu barn trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn



hyn gyda'r staff yn ffafrio sesiynau wyneb yn wyneb. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff hefyd er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifenedig.

### **Diwrnod Shwmae Sumae**

Unwaith eto eleni roeddem yn rhan o ddathliadau diwrnod Shwmae Sumae ar y 15fed o Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda 'Shwmae' neu 'Su'mae' gyda'r nod i ddangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu os ydych yn swil am eich Cymraeg. Fe wnaethom hyrwyddo'r digwyddiad ar ein cyfrifon cymdeithasol trwy rannu geiriau Cymraeg defnyddiol gyda, seineg i helpu dysgwyr, i'w defnyddio yn y caffi, tafarn, swyddfa, cyfarfod a'r llyfrgell yn ogystal â rhannu fideo wnaethom greu o fascot y ddraig goch (Dewi Draig) yn cael ei ffilmio gan ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg y Cyngor. Pasiodd y ddraig bêl rygbi i aelodau eraill o staff ar ôl dweud "shwmae" neu "sumae", yna gwnaeth yr aelodau staff hynny yr un peth. Y syniad y tu ôl i hyn oedd mai'r Gymraeg oedd y bêl rygbi a'n bod yn pasio'r iaith ymlaen.

### **Cyfuno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Fforwm Iaith**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg hyd at 2032 Sir Ddinbych yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn a'r bwriad i uno y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol gyda Fforwm Iaith y Sir er mwyn goruchwyllo gweithredu a gwerthuso'r cynllun. Felly yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymdrechion swyddogion y ddau grŵp wedi bod ar gyfuno'r Fforwm a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan ddilyn model Cyngor Ynys Môn a Chyngor Sir Gar.

Golyga hyn y bydd pob cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy ran gydag un rhan yn benodol i Addysg a'r llall yn benodol ar gyfer y Fforwm Iaith. Bydd isafswm o 3 cyfarfod yn ystod pob blwyddyn a bwriedir cael Cadeirydd annibynnol. Prif fanteision y strwythur hyn fydd sicrhau bod cyfeiriad strategol clir, lleihau dyblygiad gweithgareddau a cynyddu y cyfle i fudd ddeiliad gydweithio ai gilydd.

### **Dydd Gŵyl Dewi**

Eisteddfod y staff oedd y prif ddiwyddiad i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eto eleni, ond fe wnaethom hefyd rannu gwybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol am hanes Dewi Sant, geirfa Cymraeg perthnasol a seineg i helpu dysgwyr Cymraeg a'r ffeithiau

diddorol am pam mae'r cennin a'r cennin Pedr yw symbolau cenedlaethol Cymru yn ogystal â'r rheswm y tu ôl i'w gwisgo ar Ddydd Gŵyl Dewi.

### **Logo iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost**

Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, mae gennym logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.



### **Hyrwyddo Safonau'r iaith Gymraeg**

Rydym wedi creu dogfennau i hyrwyddo safonau'r iaith Gymraeg i'w rhannu ar dudalen facebook staff y cyngor, ein newyddlen ddyddiol, mewnwyd a'n system visiontime. Rhestr wirio i staff ydyw i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gan ddilyn y canllawiau a roddwyd. Mae'r templedi yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, trefnu cyfarfodydd a gohebu. Rydym hefyd wedi creu dogfen o eiriau Cymraeg perthnasol ar gyfer staff a chynghorwyr i'w ddefnyddio mewn cyfarfodydd er mwyn eu hannog i ddechrau a gorffen cyfarfodydd yn y Gymraeg.

### **Fideos i hyrwyddo'r Gymraeg**

Gan fod llawer o bethau wedi newid i fod ar-lein neu'n ddigidol dros y 3 flwynedd ddiwethaf, mae wedi'n gorfodi i fod ychydig bach mwy creadigol yn y ffordd rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn cadw momentwm i fynd. Rydym wedi hyrwyddo llawer o fideos sydd wedi'u creu gennym dros y flwyddyn ddiwethaf megis fideo yn ynganu geirfa a brawddegau Cymraeg defnyddiol ar gyfer cyfarfodydd a sut i ynganu enwau rhai o drefi a phentrefi Sir Ddinbych. Mae'r fideos i gyd yn cael eu rhannu'n fewnol ac allanol ar ein tudalen facebook corfforaethol ac wedi cael eu rhannu sawl gwaith gan cyhoedd.

## Meddalwedd ‘Cysgliad’

Yn dilyn trafodaethau gyda’r adran TG rydym wedi llawrlwytho’r feddalwedd ‘Cysgliad’ ar gyfrifiadur pob aelod o staff CSDd. Mae’r feddalwedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer staff sy’n siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr sy’n ceisio rhoi cynnig ar y Gymraeg gan eu bod yn cynnwys dau declyn defnyddiol - geiriadur a gwiriwr y Gymraeg. Y broses yn y gorffennol oedd bod rhaid i staff ofyn amdano, a nifer o staff ddim yn ymwybodol ei fod ar gael. Felly yn dilyn llawrlwytho’r feddalwedd mae Swyddog yr Iaith Gymraeg wedi bod yn annog staff i’w ddefnyddio a chynnig 3 dyddiad o hyfforddiant ar sut i lywio’r feddalwedd. Mae oddeutu 30 aelod o staff wedi manteisio ar yr hyfforddiant hyd yn hyn.

## Cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg

Rydym yn hyrwyddo gwersi Cymraeg yn aml iawn ac mae nifer fawr o staff yn manteisio ar y cyfle i wella eu sgiliau. Mae 8 aelod o staff wedi cofrestru ar gyfer y cwrs blasu+ am 6 wythnos (2 awr yr wythnos) gyda Choleg Cambria gyda’r bwriad o fynd ymlaen i’r cwrs lefel mynediad dwys gyda thiwtor ym mis Ionawr. Mae sawl aelod o staff hefyd wedi manteisio ar y cyrsiau 10 awr ar-lein sydd wedi’u teilwra ar gyfer gwahanol sectorau, yn ogystal â chyrsiau preswyl yn Nant Gwrtheyrn.

### 4.5 Y camau nesaf: Amserlen bresennol y gweithgarwch ar gyfer 2022/23:

Mis	Gweithgaredd
Hydref 2022 – Awst 2023	Ymgyrch fewnol ‘Dyblu’r Defnydd Dyddiol’
Tachwedd – Rhagfyr 2022	Pêl-droed Cwpan y Bydd
Tachwedd 2022 – Mawrth 20223	Strategaeth yr Iaith Gymraeg
Tachwedd 2022 – Ionawr 2023	Polisi Gweithredu’r Gymraeg yn fewnol

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## **6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes arian ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Byddai unrhyw gostau'n cael eu hamsugno gan y partneriaid presennol a thrwy ewyllys da'r Aelodau.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Er nad oes angen cynnal asesiad effaith llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 a'r safonau ar gyfer y Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden".

Mae gan y Cyngor hefyd rôl, drwy ei safonau iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith Gymraeg.

## **8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg yw gostyngiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Sir (yn ôl Mesur y Cyfrifiad Cenedlaethol). Mae'r holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr a osodwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO'R IAITH GYMRAEG**

<b>Cyfarfod</b>	<b>Eitem (Disgrifiad / Teitl)</b>		<b>Pwrpas yr Adroddiad</b>	<b>Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt</b>
<b>15 Mawrth 2023</b>	1	Diweddariad 'Mwy na Geiriau' /		Margaret Watkins, Swyddog Datblygu Staff Gwasanaethau Cymorth Cymunedol.
	2	Adroddiad ar lwyddiant y Strategaeth Iaith 2017-2022 /		Manon Celyn
	3	Strategaeth Iaith Ddrafft 2022-2027 /		Manon Celyn
<b>5 Gorffennaf 2022</b>				

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag



26 Hydref 2022

Annwyl Brif Weithredwr

## Cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd 2021-2022 – ‘Y Gymraeg fel ffordd o weithio’

Ysgrifennaf atoch yn cyflwyno adroddiad sicrwydd diweddaraf y Comisiynydd ar gyfer 2021-22 – Y Gymraeg fel ffordd o weithio.

Mae'r adroddiad sicrwydd yn rhoi barn y Comisiynydd ar y ffordd y mae sefydliadau'n gweithredu eu dyletswyddau iaith ac yn rhoi sylw i brofiadau defnyddwyr y gwasanaethau Cymraeg. Pwrpas yr adroddiad ydy rhoi cyfle i chi fel arweinwyr sefydliadau i ystyried sut mae eich corff chi yn perfformio yn erbyn y tueddiadau cyffredinol, ac i ystyried eich blaenoriaethau o ran parhau i wella a gweld cynnydd yn eich perfformiad. Mae'n gyfle i ddeall mwy am be sydd yn gweithio yn dda, i feddwl am adborth defnyddwyr y Gymraeg am eu profiadau wrth geisio derbyn gwasanaethau Cymraeg ac i herio eich hunain ar lefydd ble mae perfformiad yn wael.

Mae'r adroddiad yn canfod ar y cyfan, fod perfformiad cyrff yn eithaf sefydlog wrth gymharu arolygon a phrofiadau pobol dros gyfnod y pandemig. Fodd bynnag, mae risg fod y cynnydd a welwyd mewn cydymffurfiaeth cyn cyfnod y pandemig wedi arafu a bod tuedd o wanhau mewn rhai manau.

Y prif bryder amlygodd flwyddyn diwethaf yw'r diffyg sylweddol sydd wrth gydymffurfio â dyletswyddau sy'n ymwneud â hysbysebu swyddi a dilyn prosesau recriwtio am staff newydd. Gosododd y Comisiynydd her i sefydliadau yn ôl yn 2019 yn ei adroddiad sicrwydd iddynt fod yn gwella eu perfformiad yn y maes hwn. Siomedig iawn felly yw gweld nad oes cynnydd ddigonol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf.

### Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygyymraeg.cymru

### Welsh Language Commissioner

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.wales

**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Mae angen chwyldro yn ymagwedd nifer o gyrff cyhoeddus tuag at ddenu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg er mwyn gwella eu gallu i ymateb i hawliau'r cyhoedd o dan y safonau. Mae yna gyswllt clir rhwng cael gweithlu ddwyieithog a gallu cyrff i gynnig gwasanaethau atebol da. Rhaid i gyrff wella eu gallu i asesu anghenion ieithyddol swyddi gwag er mwyn gwella eu gallu i ddarparu yn Gymraeg ac felly defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn parhau i dynnu eich sylw at yr angen i wella trefniadau wrth gydymffurfio â'r safonau llunio polisi. Mae dyfarniad diweddar Tribiwnlys y Gymraeg yn y maes hwn yn cael ei amlygu ac rwyf yn eich annog i roi sylw dyladwy i'ch trefniadau cydymffurfio â'r safonau llunio polisi gan eu bod yn allweddol i yrru newid wirioneddol o ran defnydd o'r Gymraeg.

Rwyf yn nodi yn yr adroddiad ein bod yn byw mewn oes o ansefydlogrwydd o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, ac ansicrwydd o safbwynt ieithyddol wrth i ni aros am ganlyniadau'r Cyfrifiad. Rwyf am eich atgoffa fod y safonau yno i ddangos parch tuag at ddewis iaith ac i alluogi siaradwyr ym mhob man i allu byw eu bywydau yn y Gymraeg.

Mae gan eich sefydliad chi, fel bob sefydliad cyhoeddus Cymru rôl flaenllaw i'w chwarae wrth sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu a drwy ymrwymiad llawn i weithredu'r safonau mae modd i chi dylanwadu yn sylweddol ar greu Cymru ble mae modd defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Mae croeso i chi gysylltu â ni trwy eich swyddog cyswllt os hoffech drafod cynnwys yr adroddiad sicrwydd.

Yn gywir,

Gwenith Price

Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg





Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

26 October 2022

Dear Chief Executive,

### **Publishing the 2021-2022 Assurance Report - 'Welsh as a way of working'**

I write to present to you the Commissioner's latest assurance report – 'Welsh as a way of working'.

The assurance report outlines the opinion of the Commissioner on the way organisations deliver their language duties and reflects on the experiences of users of Welsh language services. The purpose of the report is to give you as the leaders of organisations the opportunity to consider how your organisation performs against general trends and to consider your priorities in terms of improvement and seeing progress in performance. It is an opportunity to understand more about what works well, to consider the feedback from Welsh language users regards their experiences when trying to receive Welsh language services and to challenge yourselves in areas where performance is poor.

The report finds in general terms, that the performance of organisations is relatively stable when compared to monitoring and experiences of people over the pandemic period. However, there is a risk that the progress witnesses with compliance noted before the pandemic period has slowed and that there is a tendency to decline in some areas.

The main concern highlighted last year is the considerable failure found when complying with duties that relate to the advertising of staff and following recruitment processes for new staff. The Commissioner challenged organisations in 2019 in that assurance report to improve performance in this area. It is disappointing therefore to note that there is no real progress made of the intervening years.

A drastic change is needed in the attitude of many public sector bodies towards attracting a workforce with Welsh language skills so that they can improve their ability to respond to the rights created for the public by the standards. There is a clear link between having a bilingual workforce and the ability of organisations to provide good responsive services. Organisations must improve their ability to assess the language needs of empty staff roles to improve their ability to deliver in Welsh and therefore increase the use of the language.

**Comisiynydd y Gymraeg**  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygyymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

The report also continues to draw your attention towards the need to improve arrangements to comply with the policy making standards. The recent decision made by the Welsh Language Tribunal in this context is highlighted and I would encourage you to give due attention to your arrangements for complying with the policy making standards as they are crucial for driving real change in terms of use of the Welsh language.

I note in the report that we are living through uncertain time as a result of the Covid-19 pandemic, the cost-of-living crisis and the uncertainty from a language perspective as we wait for the results of the Census. I wish to remind you that the standards are there to show respect towards the language choice of the public and to allow for Welsh speakers everywhere to be able to live their lives in Welsh.

Your organisation, like all of the public sector bodies in Wales, has a leading role to play to ensure that the Welsh language thrives and by committing fully to delivering the standards you are able to influence significantly in creating a Wales where it is possible to use the Welsh Language daily.

You are welcome to contact us through your main contact should you wish to the assurance report.

Yours sincerely,

Gwenith Price

Deputy Welsh Language Commissioner

# Y Gymraeg fel ffordd o weithio

Adroddiad Sicrwydd 2021-22

---

## Cynnwys:

Rhagair	1
Prif ganfyddiadau	3
Arolwg siaradwyr Cymraeg	6
Cydymffurfiaeth cyrff â safonau'r Gymraeg	12
Ffocws ar gydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi	27
Ffocws ar gydymffurfiaeth wrth hysbysebu swyddi a phrosesau recriwtio	32
Cydymffurfiaeth cyrff â dyletswyddau cynlluniau iaith	39
Atodiad 1	44
Atodiad 2	46

## Rhagair:

### Y Gymraeg fel ffordd o weithio

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i adlewyrchu ar y ffordd y mae sefydliadau yn meddwl am y Gymraeg wrth lunio polisïau, wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y Gymraeg, a rhoi sylw i'r graddau y maent yn ymateb yn briodol i'r dyletswyddau iaith a osodir arnynt. O fewn y cyd-destun hynny, rwy'n falch gallu nodi bod yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau cadarnhaol o gyflawniad ac yn cynnig arferion da i sefydliadau sydd â lle i wella. Er hynny, ac mae'n siŵr nad yw hyn yn syndod o ystyried y cyfnod heriol diweddar, rwy'n gofidio nad yw'r cynnydd welwyd cyn cyfnod y pandemig bellach yn bodoli.

Drwy gydol y cyfnod hwnnw bu i'r Comisiynydd ddangos goddefgarwch rhesymol os oedd heriau gwirioneddol yn codi oherwydd y cyfnod argyfyngus y gorfu i bawb weithio drwyddo ond nid yw hynny bellach yn gynaliadwy.

Cyfrifoldeb pennaf y Comisiynydd yng nghyswllt y drefn safonau yw cynnal y disgwyliad sydd ar sefydliadau i weithredu safonau Llywodraeth Cymru – safonau sydd wedi eu cydsynio gan Senedd Cymru. Byddai methu rheoleiddio'n effeithiol yn gwneud cam â defnyddwyr.

Mae'r newidiadau a welwyd mewn trefniadau gweithio cyrff, megis gweithio o gartref a symud at fwy o ryngweithio digidol, bellach wedi eu mabwysiadu fel rhai hirdymor a mwyfwy o gyrff cyhoeddus yn annog model o weithio hybrid. O ganlyniad mae'n rhaid i drefniadau cydymffurfio â dyletswyddau iaith addasu a newid fel bod sefydliadau yn parhau i weithredu yr un mor effeithiol neu yn well nag oeddent pan oedd eu gweithlu mewn swyddfa neu ar safle parhaol.

Nodais yn fy adroddiad y llynedd bod enghreifftiau clodwiw o sefydliadau a lwyddodd i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg er gwaethaf newidiadau chwyldroadol. Erbyn hyn, serch hynny, mae yna sefydliadau nad ydynt wedi addasu, ac mae peryg y gall hyn gael effaith negyddol ar ddefnyddwyr y Gymraeg.

Yn yr adroddiad sicrwydd 2018-2019 "Hawlio cyfleoedd" gosododd y Comisiynydd her i sefydliadau i wella perfformiad wrth recriwtio gweithlu dwyieithog. Mae'n siom gweld nad yw hynny wedi digwydd. Mae canfyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf yn amlygu diffyg sylweddol wrth hysbysebu swyddi a dilyn prosesau recriwtio staff newydd. Rwyf o'r farn bod angen chwyldro er mwyn denu gweithlu sy'n medru'r Gymraeg.

Ni ellir dadlau nad yw'r sector iechyd wedi bod o dan bwysau dros y cyfnod diwethaf, ond mae angen i Gomisiynydd y Gymraeg ymrwmo i reoleiddio'n effeithiol er mwyn gyrru newid. Mae angen i'r sector ystyried sut i gwrdd â gofynion y safonau. Dengys

y canfyddiadau ei fod yn perfformio'n sylweddol waeth na sectorau eraill sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Mae'n angenrheidiol, os yw'r sefyllfa am wella, bod cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg yn cael lle blaenllaw yn y strategaeth ail godi.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn edrych ar berfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith. Mae perfformiad cymysg o fewn y cyrff yma yn rhwystredig i ddefnyddwyr ac nid oes modd i'r Comisiynydd orfodi newid. Mae mwy o sefydliadau'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg na sydd o dan y drefn safonau ac ni ellir gweld bod unrhyw fath o gysondeb ieithyddol yng Nghymru er mwyn medru cynyddu defnydd.

Rydym yn byw mewn oes o ansefydlogrwydd o ganlyniad i bandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, ac ansicrwydd o safbwynt ieithyddol wrth i ni aros am ganlyniadau'r Cyfrifiad. Yn yr adroddiad hwn, fy mhrif nod yw atgoffa penaethiaid sefydliadau, ac unrhyw rai mewn awdurdod, bod safonau'r Gymraeg yn safonau hyrwyddol positif. Mae'r safonau yno i ddangos parch tuag at ddewis iaith ac i alluogi siaradwyr ym mhob man i allu byw eu bywydau yn y Gymraeg. Nawr yw'r amser i fod yn ymroi i ail godi ac ail gydio mewn gwasanaethau gan gynllunio'n weithredol er mwyn parchu hawliau defnyddwyr y Gymraeg iddynt gael eu trin yn gyfartal.

Wrth i'r amgylchiadau o'n cwmpas newid yn barhaus, mae'r safonau yn disgwyl i sefydliadau esblygu gyda'r Gymraeg. Dylai fod hyn yn rhan greiddiol o feddylfryd gwlad sydd am gael dros filiwn o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith yn gyson. Mae gan sefydliadau cyhoeddus Cymru rôl flaenllaw i'w chwarae felly wrth sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu, ac mae'r ffordd y maent yn cydymffurfio gyda dyletswyddau iaith yn allweddol bwysig.

## **Gwenith Price**

### **Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg.**

## Prif ganfyddiadau

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r Comisiynydd o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021-2022.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar waith gwirio uniongyrchol a gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd, cyfarfodydd ac ymgysylltu gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau iaith Gymraeg, gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd a chanfyddiadau arolwg barn siaradwyr Cymraeg o fis Tachwedd 2021.

Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, nid oedd modd gwirio neu arolygu rhai gwasanaethau fel y digwyddodd yn y blynyddoedd a fu, megis gwasanaethau derbynfa, neu wirio gwasanaethau pan oedd angen teithio neu ymweld â sefydliadau, megis arwyddion a arddangosir gan gyrff neu ddefnyddio peiriannau hunan wasanaeth.

Ar ben hynny, nid oedd cyfle i'r Comisiynydd gynnal grwpiau ffocws neu ymgysylltu gydag aelodau'r cyhoedd, felly mae sylw wedi ei roi i ganlyniadau arolwg siaradwyr y Gymraeg (Tachwedd 2021) yn ogystal â chynnwys nifer o esiamplau o waith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd - gwaith sydd yn seiliedig ar gwynion gan aelodau'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle i sefydliadau cyhoeddus ddysgu o'r canfyddiadau a gweithredu er mwyn cryfhau darpariaeth a chynyddu defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol – eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau, a rhoddir arweiniad ar y manau hynny sydd fwyaf angen sylw yn yr adroddiad hwn er mwyn i benaethiaid sefydliadau ddeall ble mae'n rhaid iddynt gyfeirio eu sylw er mwyn osgoi wynebau camau gorfodi.

## Mae yna ddiffyg sylweddol i gydymffurfio gyda safonau sy'n gysylltiedig â recriwtio staff

- Canfyddiad yr arolygon gan swyddogion y Comisiynydd yw bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi mewn 50% o'r achosion a arolygwyd.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer hysbysebion swyddi a gyhoeddwyd yn Gymraeg (o 24% yn 2019 i 66% yn y flwyddyn 2022). Fodd bynnag, mae'r darlun ar draws sectorau yn gymysg. Mae'r arolygon yn dangos fod cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 7 (sef Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol) yn cyhoeddi dim ond 23% o'u hysbysebion swyddi yn y Gymraeg.
- Er bod cynnydd mewn swyddi sy'n cael eu hysbysebu gan gyrff yn y Gymraeg, nid yw'n dilyn bob tro fod y dogfennau cefnogol ar gyfer y swyddi hefyd ar gael yn

Gymraeg neu fod defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hybu a'i hwyluso ymhellach yn ystod y broses hysbysebu.

- Dim ond 7% o'r hysbysebion swyddi a arolygwyd oedd yn cynnwys ffurflen gais ble roedd modd i ymgeiswyr nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r safonau sy'n gofyn iddynt asesu'r angen am sgiliau Cymraeg cyn hysbysebu swyddi gwag yn peri pryder gyda dros hanner yr hysbysebion a arolygwyd yn methu â chrybwyll pa lefel sgiliau sydd ei hangen ar y swydd, neu nad yw'r dynodiad sgiliau yn eglur i berson a fyddai'n ymgeisio.

**Amlygodd arolwg barn siaradwyr Cymraeg fod y cyhoedd yn parhau o'r farn fod pethau'n gwella. Mae data yn awgrymu hefyd y byddai rhagor o bobl yn defnyddio'r Gymraeg pe bai sefydliadau yn gwneud mwy i hwyluso dewisiadau staff a chwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn abl i warantu gwasanaethau Cymraeg.**

- 15% o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg barn siaradwyr Cymraeg oedd yn nodi eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Mae 26% pellach o siaradwyr Cymraeg fodd bynnag yn nodi eu bod yn amrywio eu dewis iaith yn ddibynnol ar y sefyllfa.
- Mae ein harolygon gwirio yn parhau i ddangos nad yw gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad mewnol cyrff yn Gymraeg yn gyson bob tro, sydd yn debygol o arwain at ddiffyg hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau a thuedd i droi at wasanaethau Saesneg sydd yn eu tyb nhw'n fwy dibynadwy.

**Mae arolygon gwirio'r Comisiynydd yn amlygu fod gwendidau yn parhau o safbwynt rhai gwasanaethau allweddol**

- Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd yn dangos fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn gyffredinol isel. Ar gyfartaledd mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn delio â galwadau yn Gymraeg yn ystod hanner yr achosion (53%). Nid yw hyn yn rhoi unrhyw sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael.
- Roedd canfyddiadau arolygon y Comisiynydd yn canfod, pan oedd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb gan sefydliadau, roedd yn cael ei hateb yn Gymraeg 81% o'r amser. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwir brofiad gan ystyried mai dim ond mewn 73% o achosion y cafodd yr ohebiaeth ymateb o gwbl.



- Felly o'r holl ohebiaeth Gymraeg anfonwyd i'r cyrff, dim ond 60% wnaeth dderbyn ymateb yn Gymraeg (gan ystyried y lefel o ymholiadau na chafodd ateb o gwbl).

**Mae dealltwriaeth sefydliadau o'r gofynion safonau llunio polisi yn gwella, ond mae gweithredu a chynnal asesiadau digonol wrth wneud penderfyniadau polisi yn parhau yn anghyson.**


- Mae hunan asesiad sefydliadau yn datgan bod gweithdrefn a chanllawiau mewn lle i ddiwallu gofynion y safonau llunio polisi mewn rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwilio a gorfodi a'r nifer o gwynion mae'r Comisiynydd yn eu derbyn yn y maes hwn yn dangos fod penderfyniadau polisi yn parhau i ddigwydd heb asesiad digonol o effaith y penderfyniad ar ddefnydd o'r Gymraeg. Mae felly angen i sefydliadau sicrhau bod y gweithdrefnau a'r canllawiau sydd mewn lle yn arwain at asesiadau ystyrlon a digonol.

**Mae perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i gynlluniau iaith yn amrywio yn sylweddol ac mae diffyg cysondeb yn golygu nad oes sicrwydd i ddefnyddwyr fod gwasanaethau Cymraeg o safon ar gael bob tro.**

# Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg


## Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Mae 32% o'r ymatebwyr yn 2021 wedi datgan eu barn fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu **bywydau bob dydd** wedi cynyddu, gyda 45% arall yn nodi fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi aros yr un peth. Fodd bynnag, mae 19% o'r ymatebwyr yn datgan fod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wedi lleihau:



Rydym wedi holi'r cwestiwn hwn yn yr arolwg siaradwyr Cymraeg ers 2017, a dylid nodi fod ymateb 2021 yn cynnwys y ganran uchaf sy'n datgan fod cynnydd yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd ers i'r safonau ddod i rym.


Mae'r ymateb yn 2021 hefyd yn cymharu'n ffafriol â 2020, ble roedd 23% o ymatebwyr i'r arolwg wedi nodi fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd wedi lleihau a dim ond 20% wedi gweld cynnydd. Mae'n anodd gwybod â sicrwydd paham fod tueddiadau'r blynyddoedd blaenorol wedi newid yn ymatebion 2020, ond efallai bod modd tybio fod y pandemig wedi cael effaith ar nifer o sefyllfaoedd ble oedd ymatebwyr yn defnyddio eu Cymraeg, megis yn gymdeithasol neu wrth ddefnyddio gwasanaethau.



### Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith:

Un elfen sy'n dylanwadu'n gryf ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, ac sydd ym marn y Comisiynydd yn allweddol i weld twf yn y defnydd o'r Gymraeg, yw gallu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Am y tro cyntaf eleni felly, fe wnaeth y Comisiynydd ofyn fel rhan o'r arolwg o siaradwyr, os oedd yr ymatebwyr o'r farn fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith wedi newid.


Ymatebodd 38% fod eu cyfleoedd wedi cynyddu, a gyda 42% pellach yn nodi fod eu cyfleoedd wedi aros yr un peth.



## Defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus

Wrth ystyried gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd, mae'n bwysig derbyn barn y cyhoedd ar eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Mae'n dda i nodi felly nad oes dirywiad yn yr atebion o ran barn yr ymatebwyr ar eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus.

Gyda 35% o'r ymatebwyr yn datgan eu bod o'r farn fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cynyddu, mae'n galonogol hefyd nodi mai gyda'r ymateb i'r cwestiwn hwn (defnydd gyda sefydliadau cyhoeddus) y gwelwyd y nifer isaf o ran ymatebwyr yn nodi fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleihau (13%).




## Dewis iaith

Gofynnwyd i ymatebwyr, pa iaith yr oedd well ganddyn nhw ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus. Nododd 15% eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg, a 26% yn nodi eu bod yn amrywio ffafriaeth yn ddibynnol ar y sefyllfa.

Mae 41% o'r siaradwyr Cymraeg a holwyd felly yn datgan bod yn well ganddyn nhw naill ai ddefnyddio'r Gymraeg bob tro, neu dderbyn gwasanaethau dwyieithog.

**Mae her glir i sefydliadau yma i gynyddu lefelau defnydd gan roi sylw i'r 59% o bobl sy'n siarad Cymraeg nad ydyn nhw yn dewis defnyddio'r iaith.**


### Pa iaith sy'n well gan yr ymatebwyr ei defnyddio gyda chyrrff cyhoeddus?



■ Cymraeg ■ Saesneg ■ Amrywio dibynnol ar y gwasanaeth

Mae'n bwysig nodi fod tuedd ar ei lawr yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ran y nifer o ymatebwyr sy'n nodi bod yn well ganddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus:

### Canran ymatebwyr sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus



Mae'r tuedd negyddol hwn wedi bod yn destun trafod gan Banel Cyngori y Comisiynydd, yn enwedig wrth i'r gostyngiad sylweddol rhwng 2019 a 2020 gael ei nodi. Trafodwyd efallai fod y gostyngiad oherwydd y newidiadau yn ymwneud pobl â chyrrff cyhoeddus oherwydd pandemig COVID 19 neu gall fod yn adlewyrchu newid yn y dull bu cynnal yr arolwg yn ystod y pandemig.

Ar hyn o bryd, nid oes digon o ddata neu wybodaeth gyflawn i allu dadansoddi paham fod gostyngiad yn y ganran o ymatebwyr sy'n ffafrio defnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus, nac ychwaith i ddod i farn a yw'n duedd hir dymor neu yn ddigwyddiad untro sy'n tarddu o'r pandemig, dull cynnal arolwg o bell, neu'r dirywiad mewn lefelau cydymffurfiaeth mewn amryw o sefydliadau mewn nifer o feysydd pwysig.

Fodd bynnag, mae hwn yn ystadegyn pryderus a rhaid i gyrrff cyhoeddus ystyried yn ofalus a yw eu gwasanaethau Cymraeg wedi cael eu cynnal dros gyfnod y pandemig

neu beidio, a yw'r ffordd maent yn cael eu darparu wedi newid neu ddirywio, pa gamau ail godi all fod eu hangen a beth yw'r camau sy'n mynd i gael eu cymryd i hybu a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrrff cyhoeddus, ac i sicrhau ei bod hi'r un mor hawdd a hwylus i ddefnyddio'r Gymraeg ac ydyw i ddefnyddio'r Saesneg.

Mae ein canlyniadau gwirio ac arolygon siopwr cudd fel amlinellwyd uchod, yn parhau i ddangos nad yw gwasanaethau Cymraeg neu weithrediad mewnol cyrrff yn Gymraeg yn gyson bob tro, sydd yn debygol o arwain at ddiffyg hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau. Er mwyn i ymddygiad defnyddwyr newid, ble mae siaradwyr y Gymraeg am ddefnyddio'r Gymraeg bob tro, mae'n rhaid bod sicrwydd fod gwasanaeth o safon ar gael.

Mae ymatebwyr yn datgan o fewn yr arolwg beth yw'r prif ffactorau sydd yn gwneud iddynt amrywio dewis iaith, gyda 34% o ymatebwyr yn amrywio defnydd iaith yn sgil y pwnc sydd dan sylw.

Mae 10% yn dewis peidio defnyddio'r Gymraeg yn sgil diffyg argaeledd y gwasanaeth Cymraeg ac 8% oherwydd amseroedd aros am wasanaethau Cymraeg. Mae felly o fewn gallu'r cyrrff cyhoeddus i hybu cynnydd yn nhermau defnydd o'r Gymraeg drwy wneud yn siŵr fod gwasanaethau Cymraeg ar gael ac yn cael eu hyrwyddo. Mae'n rhaid hefyd sicrhau nad yw gwasanaeth Cymraeg yn israddol neu fod unrhyw ragdybiaeth y gallai fod yn israddol. Mae'n rhaid i gyrrff ei gwneud yn glir trwy eu hymddygiad nad yw'r Gymraeg yn cael triniaeth lai ffafriol na'r Saesneg pan mae'n dod at weithredu gwasanaethau fel bod hyder gan y cyhoedd eu defnyddio.

Mae 19% o ymatebwyr sydd ddim yn defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd o'r farn nad ydyn nhw yn bersonol yn ddigon rhugl neu â gafael digonol o'r iaith, ac mae 9% yn datgan fod ganddynt ddiffyg hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg ac felly yn dewis peidio â defnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, mae 12% o'r rheini sy'n dewis peidio defnyddio'r Gymraeg yn nodi nad ydynt yn dewis defnyddio'r Gymraeg, oherwydd yn eu barn nhw, nid oes argaeledd digonol o wasanaethau Cymraeg neu nid oes gwasanaeth Cymraeg ar gael bob amser. Mae 5% yn nodi fod angen i'r corff gychwyn y sgysiau yn Gymraeg er mwyn i'r ymatebwyr fynd ymlaen i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r farn hon yn amlygu'r elfennau gall cyrrff cyhoeddus eu newid drwy fuddsoddiad ym marchnata a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a drwy wella eu perfformiad cyffredinol gyda safonau'r Gymraeg drwy ymgorffori'r cynnig rhagweithiol.

Cynhaliwyd ymchwil pellach ynghyd â gwaith i ystyried cynllunio gwasanaethau yn well gan y Comisiynydd yn ei adroddiad sicrwydd yn 2018 - 2019. Yn sgil effaith newid rhai trefniadau gweithio a threfniadau gweithredu a chynnal gwasanaethau, dylai cyrrff cyhoeddus ail ystyried rhai o'r ffactorau amlinellwyd yn adran 5 yr adroddiad hwnnw:

[20190731-hawlio-cyfleoedd-adroddiad-sicrwydd-2018-19-1.pdf](#)  
([comisiynyddygydraeg.cymru](#))

Mae'r Comisiynydd hefyd yn cynnig arweiniad ymarferol pellach ar hybu defnydd o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn o fewn ei ddogfen gyngor:


## Ansawdd

Mae 82% o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gallu delio â sefydliadau cyhoeddus yn Gymraeg pe baen nhw'n dymuno hynny. Mae 79% o'r ymatebwyr o'r farn fod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau yn gwella a 74% o ymatebwyr yn cytuno fod sefydliadau cyhoeddus yn gofyn iddynt ym mha iaith y byddent yn hoffi delio â nhw.

Mae 67% o'r ymatebwyr yn cytuno fod gwasanaethau Cymraeg o'r un ansawdd a safon a gwasanaethau Saesneg sefydliadau cyhoeddus, gyda 66% yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw cyrff yn ei gwneud yn glir fod y gwasanaeth ar gael.

## Cwyno at sefydliadau yn uniongyrchol:

Dim ond 51% o'r ymatebwyr sydd o'r farn fod sefydliadau cyhoeddus yn ei gwneud yn glir iddyn nhw sut mae modd cwyno am wasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn gynydd dros amser o ran yr ymatebwyr sydd yn gwybod sut i wneud cwyn yn uniongyrchol at gyrff, er hynny mae'n ffigwr isel.



Fel ddaw i'r amlwg wrth wirio cydymffurfiaeth sefydliadau, nid yw pob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno a gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd, ac felly ystyrir fod lle i ganran dda o gyrff cyhoeddus gymryd camau buan i gydymffurfio gyda'u dyletswyddau yn y maes hwn (gweler tudalen 22).

# Cydymffurfiaeth cyrff â safonau'r Gymraeg

Yn flynyddol, mae'r Comisiynydd yn casglu data ac yn monitro perfformiad sefydliadau er mwyn cynnal ei waith rheoleiddio. Prif amcanion y Comisiynydd wrth reoleiddio perfformiad a chydymffurfiaeth sefydliadau yw canolbwyntio ar gydymffurfiaeth, cau bylchau gwybodaeth a gwella sut mae'r Comisiynydd yn darganfod diffygion, hybu hunan-reoleiddio a gweithredu ar ddiffygion.

Os yw'r Comisiynydd yn dod i'r casgliad nad yw'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu'n dangos sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, bydd yn gweithredu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

## Arolygon gwirio

Mae swyddogion y Comisiynydd yn cynnal arolygon gwirio uniongyrchol gyda rhai o brif wasanaethau cyrff drwy ymddwyn fel 'siopwr cudd'.

### Prif ganlyniadau – gwirio gwasanaethau 2021-2022

<b>GOHEBIAETH</b>	
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	73%
Gohebiaeth Saesneg – wedi derbyn ymateb (unrhyw iaith)	62%
Gohebiaeth Gymraeg – wedi derbyn ymateb yn Gymraeg (ble derbyniwyd ymateb o gwbl)	81%
Hybu argaeledd y Gymraeg drwy ddatganiad ar yr ohebiaeth <sup>1</sup>	36%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	17%
<b>GALWADAU FFÔN</b>	
Delio â'r alwad a darparu ateb cyflawn yn Gymraeg	56%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	39%
System awtomeiddio yn darparu gwasanaeth cyflawn yn y Gymraeg	73%
<b>FFURFLENNI</b>	
Ffurflen ar gael yn Gymraeg	68%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	33%
<b>DOGFENNAU</b>	
Dogfen ar gael yn Gymraeg	81%
Y Gymraeg wedi ei thin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	29%
<b>GWEFANNAU</b>	
Tudalennau ar gael yn Gymraeg	84%

<sup>1</sup> Cydymffurfio â safon 7: "Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi."



Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	41%
<b>CYFRYNGAU CYMDEITHASOL</b>	
Y post ar gael yn Gymraeg	83%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	27%
<b>CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU</b>	
Deunydd hysbysebu a fideos ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol neu wefannau yn Gymraeg	73%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	35%
<b>HUNANIAETH CORFFORAETHOL</b>	
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol y corff – megis logo, enw ayb	81%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	23%
<b>HYSBYSEBION SWYDDI</b>	
Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg	66%
Y Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	50%

Prif ganfyddiadau:

### Gwasanaethau ffôn

Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd yn dangos fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofynion i ddelio â galwadau ffôn yn Gymraeg yn anghyson ac yn annigonol.

Ar gyfartaledd, mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn **delio â galwadau yn Gymraeg yn ystod hanner yr achosion (56%)**. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw sicrwydd i ddefnyddwyr y bydd gwasanaeth Gymraeg ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i'r setiau rheoliadau 1 i 7. (Mae rhestr o'r cyrff arolygwyd o fewn pob set o reoliadau i weld yn Atodiad 2).

Gwasanaethau ffôn	Cyfartaledd	Rh. 1	Rh. 2	Rh.4	Rh. 5	Rh. 6	Rh. 7
A ddeliwyd â'r ymholiad yn llawn yn Gymraeg?	<b>56%</b>	60%	84%	90%	42%	29%	30%
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	<b>39%</b>	35%	25%	0%	67%	17%	73%
Cydymffurfio â safon 8 : "Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg."	<b>74%</b>	79%	89%	100%	76%	50%	60%
Cydymffurfio â safon 22: "Rhaid i unrhyw system ffôn	<b>73%</b>	82%	62%	100%	57%	96%	41%


wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg."							
--	--	--	--	--	--	--	--

Fel mae'r tabl yn dangos, mae perfformiad cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 6 (sef colegau addysg bellach a Phrifysgolion), a rheoliadau rhif 7 (sef byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r gwasanaeth iechyd) yn is na'r cyfartaledd; **Ilwyddodd cyrff rheoliadau rhif 6 a 7 i ddelio â 30% o'r galwadau yn Gymraeg.**

**Mae'r tabl yn dangos fod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod bron i 40% o'r galwadau ffôn y gwnaeth staff y Comisiynydd eu cynnal.**

Mae perfformiad y cyrff yn gwella pan mae modd sefydlu trefniadau– gyda 73% o'r systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio yn cydymffurfio â gofynion safon 22.

Yn gyffredinol, mae'r duedd o ran lefel cydymffurfiaeth cyrff gyda'r dyletswyddau sy'n gosod gofyniad i ddelio â galwadau ffôn yn eu cyfanrwydd yn Gymraeg yn eithaf cyson o amgylch 50% – mae'r graff isod yn dangos y duedd (llinell ddotiog):



Mae'n fater o bryder nad oes cynnydd wedi bod gyda chynnal gwasanaethau ffôn yn y Gymraeg dros y cyfnod diwethaf. Mae'r Comisiynydd o'r farn fod angen i gyrff weithredu er mwyn gweld newid - yn enwedig yn y sectorau addysg bellach ac iechyd. Mae rhaid ystyried newid y trefniadau'n sylfaenol i allu cydymffurfio gan sicrhau fod staff sydd yn medru'r Gymraeg ar gael i ymateb i ymholiadau dros y ffôn. Bydd y Comisiynydd yn agor ymchwiliadau ac yn gorfodi os oes angen lle mae'n dod ar draws amheuan o fethiannau gyda gwasanaethau ffon.

Efallai ei bod hi'n gynamserol i ystyried a gafodd y pandemig Covid 19 effaith ar lefel perfformiad o ran gwasanaethau ffôn. Fodd bynnag, mae adborth anecdotaidd gan sefydliadau yn datgan fod y symud i weithio'n hybrid ac o adref yn gwneud hi'n

anoddach iddynt drefnu'r gweithlu er mwyn sicrhau bod modd ymateb i alwadau yn Gymraeg bob tro.

### Ymchwilio a gorfodi: gwasanaethau ffôn

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddo fethu cael gwasanaeth yn Gymraeg drwy ffonio cronfa bensïynau sy'n cael ei gweithredu gan Gyngor Sir. Roedd wedi ffonio rhif ar lythyr y derbyniodd ganddynt. Roedd yr ymchwiliad felly yn ymwneud â rhifau ffôn uniongyrchol - pan fo gofyniad i ddelio â galwadau yn Gymraeg yn eu cyfanrwydd. Dyfarnodd y Comisiynydd bod yna fethiant i gydymffurfio â safon y Gymraeg ar y sail fod y Cyngor heb gynnal galwad ffôn yn Gymraeg gyda'r achwynydd, gan taw'r unig elfen Gymraeg o'r alwad oedd y cyfarchiad. Roedd hwn yn ymchwiliad pwysig gan ei fod yn ymwneud â rhifau ffôn uniongyrchol sydd yn dod yn fwyfwy perthnasol wrth i sefydliadau weithio yn hyblyg. Mae angen i gyrff ystyried sut y mae newidiadau i leoliadau'r gweithlu yn sgil y pandemig yn cael effaith hir dymor ar eu gallu i gydymffurfio gyda dyletswyddau; ac i ystyried felly a oes angen adolygiad o'r trefniadau sydd efallai wedi bod mewn grym ers cyfnod cynllunio cyn y pandemig.

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau atodol ar gyrff i gefnogi eu cynllunio ac adrodd ar eu perfformiad o safbwynt y safonau cyflenwi gwasanaethau. Mae cyfle felly gan sefydliadau i ail ystyried y trefniadau maent wedi eu cyhoeddi i sicrhau eu bod dal yn galluogi cydymffurfiaeth yn sgil newidiadau i'r gweithlu ac i gynllunio ar gyfer gweithio hybrid.

### Gwasanaethau digidol

Mae arolygon y Comisiynydd yn canfod ar draws pob sefydliad a arolygwyd fod 84% o dudalennau gwe a arolygwyd ar gael yn Gymraeg. (Mae'r ystadegyn hwn yn cynrychioli cynnydd o 3% o 81% sef y canlyniad ar ddiwedd 2020). Yn gyffredinol felly, mae defnydd o'r Gymraeg ar wefannau cyrff yn rhoi sicrwydd uchel ac ar y cyfan bod modd i ddefnyddwyr gyrchu gwefannau sefydliadau yn y Gymraeg yn hwylus.

Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad yn gyson ar draws pob sector, **gyda dim ond 45% o dudalennau gwe colegau addysg bellach a phrifysgolion (rheoliadau rhif 6) ar gael yn llawn yn Gymraeg.** Mae'r arolygon yn dangos fod tudalennau gwe colegau addysg bellach a phrifysgolion ar gael yn Gymraeg, ond fod defnydd rheolaidd o gyfieithu peirianyddol neu broblemau isadeiledd yn golygu fod triniaeth llai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg. Mae hyn yn golygu nad yw'r tudalennau yn cydymffurfio â gofynion y safonau yn llawn.

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad cyrff rheoliadau rhif 6 o safbwynt yr ystod o safonau sy'n berthnasol i wefannau'r sefydliad. Mae'r tabl yn dangos fod llai na 20% o dudalennau gwe'r sefydliadau yn cydymffurfio gyda sicrwydd uchel.

Mae nifer uchel iawn o'r tudalennau gwe yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol a'r Saesneg, sy'n arwain at gydymffurfiaeth isel iawn gyda safon 55. Mae'r canlyniadau hyn wedi arwain at ymyraethau penodol gan y Comisiynydd gan gynnwys cynnal ymchwiliadau yr adroddir arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

	Colegau Addysg Bellach	Prifysgolion
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? Oedd yna ddiffygion o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg?	74%	80%
Cydymffurfio â safon 55 (rh.6) : "Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan."	22%	23%
Cydymffurfio â safon 58 (rh.6): "Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol."	67%	60%
Cydymffurfio â safon 59 (rh.6): "Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg."	65%	72%

Ar sail y gwirio'n unig, asesiad o lefel sicrwydd uchel cydymffurfiaeth	20%	19%
---	-----	-----

Bydd y Comisiynydd yn tueddu at agor ymchwiliadau pan fydd yn dod ar draws amheumon o ddiffyg cydymffurfiaeth gan golegau a phrifysgolion gyda golwg ar orfodi gwelliant lle mae angen hynny.

Gwelwyd mai 62% o dudalennau gwe byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gwasanaethau iechyd (rheoliadau rhif 7) oedd ar gael yn Gymraeg.

### Ymchwilio a gorfodi: gwefan bwrdd iechyd

Fe gynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad yn dilyn derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod bwrdd iechyd wedi lansio gwefan gorfforaethol newydd a bod rhan fwyaf o'r tudalennau ar gael yn Saesneg yn unig.

Yn dilyn cynnal ymchwiliad fe ddyfarnodd y Comisiynydd bod y bwrdd iechyd wedi methu â chydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg am nad oedd wedi sicrhau:

- bod pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg;
- bod pob tudalen ar y fersiwn Gymraeg o'r wefan yn gweithredu yn llawn;
- nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r tudalennau ar y wefan.

Er enghraifft, roedd y bwrdd iechyd wedi llunio a chyhoeddi cynnwys o'r newydd yn uniaith Saesneg ac wedi mudo cynnwys oddi ar ei hen wefan heb ei gyfieithu yn gyntaf i'r Gymraeg. Roedd enghreifftiau o gynnwys yn ymddangos ar dudalennau Saesneg oedd yn hollol absennol o'r tudalennau Cymraeg, gyda rhai tudalennau Cymraeg yn cynnwys Cymraeg gwallus neu annealladwy. Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi cyhoeddi tudalennau ar ochr Gymraeg y wefan oedd yn cynnwys dolenni oedd yn arwain at dudalennau neu gynnwys Saesneg yn unig, er roedd rhai ohonynt ar gael yn Gymraeg. Roedd rhai adnoddau ar y wefan fel y peiriant chwilio yn ddiffygiol. Hefyd, gwelwyd bod dolenni ar rai tudalennau Cymraeg wedi torri neu yn arwain at neges wall, a olygodd mewn un achos nad oedd gan ddefnyddwyr y wefan Gymraeg fynediad at ffurflenni pwysig yn ymwneud â gwasanaeth COVID-19 y bwrdd iechyd.

O ganlyniad i ymyrraeth y Comisiynydd, gwelwyd y bwrdd iechyd yn caffael gwasanaethau cwmni cyfieithu allanol i gynyddu ei gapasiti cyfieithu er mwyn sicrhau bod y wefan ar gael yn ddwyieithog. Hefyd, fe gynhaliodd y bwrdd iechyd adolygiad cynhwysfawr o'r wefan i ganfod a chywiro unrhyw gynnwys ar y wefan oedd yn methu â chydymffurfio â'r safonau, gyda'r bwrdd

iechyd yn dyrannu cyllideb i gynnal ymarfer sicrhau ansawdd dros gyfnod parhaus er mwyn sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio wrth i'r wefan ddatblygu.

Roedd traweffaith gosod camau gorfodi ar y sefydliad yn sylweddol, gan ei fod wedi ysgogi newid cadarnhaol yn ymddygiad y bwrdd iechyd, a hynny yn dilyn cyfnod estynedig o ddiffyg gweithrediad i sicrhau ei fod yn cyhoeddi ei wefan gorfforaethol yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau (ac ymrwymadau ei gynllun iaith Gymraeg gynt).

Mae gwaith arolygu'r Comisiynydd hefyd wedi dod ar draws problemau a diffygion pan fydd trydydd parti yn cynnal gwasanaethau ar lein ar ran cyrff. Mae nifer o gyrff yn dibynnu ar ddatblygwyr meddalwedd neu isadeiledd allanol i'r corff er mwyn cynnal gwasanaethau ar lein, ac mewn nifer o achosion mae hyn yn arwain at driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg, neu nad yw gwasanaethau llawn ar gael yn Gymraeg.

#### **Ymchwilio a gorfodi: gwasanaethau digidol**

Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Comisiynydd yn dilyn derbyn cwyn am system rhag-archebu ar lein ar gyfer lle parcio cerbyd ym maes parcio parc cenedlaethol. Dyfarnwyd y bu diffyg cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg gan mai yn Saesneg yn unig roedd y tudalennau ar lein rhag-archebu, a gweithredodd y Comisiynydd drwy ofyn i'r parc baratoi cynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd rhaid cynnwys ffurflen rhag-archebu Gymraeg, rhyngwyneb a dewislenni i'r tudalennau rhag-archebu a sicrhau bod pob tudalen o'r wefan sy'n ymwneud â'r broses rhag-archebu parcio ar gael yn Gymraeg.

Gwnaeth y parc gychwyn trafodaethau gyda darparwyr gwasanaethau o'r fath ac er i'r cwmnïau ddweud nad oedd yr hyn osodwyd fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gamau'r Comisiynydd yn bosib, gwnaeth cwmni preifat newid ei safbwynt cychwynol a chadarnhau bod modd darparu gwasanaeth dwyieithog i rag-archebu lle parcio ym maes parcio yn Gymraeg. Heb yr ymchwiliad statudol a'r camau gorfodi osodwyd gan y Comisiynydd, mae'n annhebygol y byddai cwmni preifat wedi newid ei ymagwedd.

#### **Cyfryngau cymdeithasol**

**Mae defnydd cyrff o'r Gymraeg ar gyfrifon cymdeithasol yn gwella, gyda 86% o'r cynnwys a arolygwyd ar gyfrifon 'Facebook' a Twitter sefydliadau yn cydymffurfio â gofynion y safonau.**

Blwyddyn yr arolwg	Canran o gynnwys cyfryngau cymdeithasol arolygwyd oedd ar gael yn Gymraeg
2021-2022	86%
2020-2021	Dim data <sup>2</sup>
2019-2020	74%
2018-2019	63%

Mae defnydd o gyhoeddusrwydd a hysbysebion sefydliadau ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn cynyddu hefyd, felly yn y flwyddyn hon gwnaeth y Comisiynydd arolygu amlygrwydd defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau gyda'u deunydd hysbysebu a fideos ar y cyfryngau cymdeithasol neu wefannau am y tro cyntaf.

Roedd yr arolygon yn canfod fod 73% o'r cyhoeddusrwydd hyn ar gael yn Gymraeg, a gyda 65% o'r deunydd, nid oedd unrhyw driniaeth lai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg.

Fodd bynnag, unwaith eto, cymysg yw'r darlun ar draws sectorau, gyda sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 7 yn perfformio yn is na'r lleill, gyda dim ond 55% o ddeunydd cyhoeddusrwydd ar lein ar gael yn Gymraeg a gwelwyd triniaeth llai ffafriol o'r Gymraeg na'r Saesneg mewn 70% o'r achosion a arolygwyd.

CYHOEDDUSRWYDD A HYSBYSEBU (e.e. fideos a deunyddiau hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefannau)	Cyfartaledd	Rh. 1	Rh. 2	Rh.4	Rh. 5	Rh. 6	Rh. 7
Oedd yr enghraifft ar gael yn Gymraeg?	<b>73%</b>	96%	57%	100%	79%	53%	55%
A gafodd y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? Oedd yna ddiffygion o ran hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg?	<b>35%</b>	13%	44%	0%	28%	44%	70%
Cydymffurfio â safon 37 (rh. 1/6): "Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio cael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y	<b>64%</b>	90%	55%	100%	74%	47%	30%

<sup>2</sup> Dim data ar gyfer 2021-2022 oherwydd ymosodiad seibir ar systemau technoleg Comisiynydd y Gymraeg.

fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg."							
---	--	--	--	--	--	--	--

## Arloesi digidol

Fel y gwnaeth y Comisiynydd adrodd y llynedd, wrth edrych ar effaith y pandemig ar drefniadau cydymffurfiaeth, nodwyd fod nifer o gyrff wedi arloesi ac edrych am gyfleoedd i weithio yn rhithiol mewn ffordd wahanol.

Mae'r astudiaeth achos hon o waith datblygu cynadleddau rhithwyr gan Ofcom yn esiampl o'r arloesi hwn ac mae cyfle gan bob sefydliad i ystyried sut y mae am addasu trefniadau yn y byd gwaith hybrid: [20211224-dg-c-astudiaeth-achos-digwyddiadau-ofcom.pdf](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/digital/digital-2021-1224-dg-c-astudiaeth-achos-digwyddiadau-ofcom.pdf) ([comisiynyddygyymraeg.cymru](https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru))

## Gohebiaeth

Roedd arolygon y Comisiynydd yn canfod, pan gafodd gohebiaeth Gymraeg ei hateb gan sefydliadau, roedd yn cael ateb yn Gymraeg yn ystod 81% o'r achosion. (Mae hyn yn ostyngiad o 2019-2020 ble roedd 92% o'r ymatebion yn Gymraeg pan dderbyniwyd ymateb).

Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwir brofiad gan ystyried y ffaith mai dim ond mewn 73% o achosion y cafodd yr ohebiaeth ymateb o gwbl.

Felly, o'r holl ohebiaeth Gymraeg a anfonwyd i'r gyrff, dim ond 60% ohonyn nhw dderbyniodd ymateb yn Gymraeg (gan gymryd i ystyriaeth y lefel o ymholiadau na chafodd ateb o gwbl).

Mae'r ffigwr hwn yn gyson gyda'r nifer o ymatebion i ohebiaeth Saesneg yn unig a dderbyniodd ymateb gan sefydliadau (62%), ac felly mae problemau cyffredinol o ran gwasanaeth cwsmer i'w gweld yn y ddwy iaith wrth i sefydliadau ymateb i ohebiaeth.

## Ffactorau ychwanegol

Mewn 17% o achosion, roedd y Comisiynydd yn canfod fod gohebiaeth Gymraeg gan sefydliadau yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y lefel hon yn uwch o lawer gan sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reoliadau rhif 7 (byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau gwasanaethau iechyd), gyda hanner yr ohebiaeth Gymraeg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, mae safonau'r Gymraeg yn cynnwys gofyniad yn y safonau i sefydliadau:

*"Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi."*

Roedd yr arolygon yn canfod mai dim ond 38% o'r ohebiaeth Gymraeg a dderbyniwyd fel rhan o'r gwaith gwirio yr oedd datganiad o'r fath yn cael ei gynnwys, a dim ond 34% o'r ohebiaeth ymateb yn Saesneg oedd yn cynnwys y datganiad hwn.



## Gweithdrefnau cwyno


Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiynydd wedi galw ar sefydliadau i ddatblygu eu trefniadau hunan rheoleiddio – hynny yw, gwella eu gallu i arolygu a chynnal prosesau gwellhad parhaus ar eu lefel cydymffurfiaeth gyda'r safonau heb yr angen am ymyrraeth gan swyddfa'r Comisiynydd.

Mae bod yn ymatebol i ddefnyddwyr drwy baratoi a gweithredu gweithdrefn gwyno uniongyrchol sy'n agored ac yn croesawu adborth yn un ffactor bwysig er mwyn cynnal gweithdrefn hunan rheoleiddio effeithiol.

Dyma'r ddyletswydd berthnasol drwy gyfrwng y safonau:

*Rhaid ichi—(a)sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—(i)sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii)sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b)cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c)sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.*

Mae arolygon y Comisiynydd yn dangos, ar y cyfan, nad yw sefydliadau yn cyflawni'r gofyniad hwn yn llawn. Mae nifer o sefydliadau yn cwrdd â rhai o'r gofynion, megis cyhoeddi gweithdrefn gwyno, ond nid ydyn nhw'n cydymffurfio'n llawn – gan amlaf gan nad yw'r weithdrefn yn trafod sut y bydd y corff yn darparu hyfforddiant i'w staff ynghylch delio â chwynion am safonau cyflenwi gwasanaethau yn y Gymraeg (nodir y rhain fel 'cydymffurfiaeth' rhannol yn y tabl isod:)



Mae'r tabl uchod yn dangos fod canran uchel o'r cyrff a enwir ym mhob set o reoliadau safonau'r Gymraeg heb weithdrefn gwyno wedi ei chyhoeddi o gwbl yn unol â gofynion y safonau.

Ystyria'r Comisiynydd nad yw'r lefel isel o gydymffurfio yn dderbyniol, mae'r ddyletswydd wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd ac nid oes cynnydd sylweddol wedi bod yn y maes. Mae'r Comisiynydd wedi casglu data ar gydymffurfiaeth sefydliadau gyda'r gofyniad hwn yn y blynyddoedd diweddar ac wedi rhannu'r canfyddiadau gyda chyrff ac mae rhai sefydliadau wedi ymateb drwy ddatblygu gwell gweithdrefnau. Mae'n anodd i sefydliadau gyfiawnhau peidio cymryd y camau gofynnol - sydd mor elfennol ac yn ymwneud a rhoi gwybod i'r cyhoedd sut i gwyno yn uniongyrchol at y corff. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod peidio â chroesawu adborth ynghylch gwasanaethau Cymraeg yn gyfle coll. Rhaid i sefydliadau fod yn agored ac yn atebol i'w defnyddwyr a heb weithdrefn dda mewn lle nid yw'r corff yn dysgu a datblygu. Mae hyn yn enwedig yn wir yng nghyd-destun y ffaith nad yw'n glir sut mae sefydliadau yn hyfforddi staff sut i ymateb i gwynion.

Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn annog unigolion yn y lle cyntaf i gwyno wrth sefydliadau os nad ydynt yn fodlon gyda gwasanaethau Cymraeg, ond er mwyn gallu gwneud hynny mae angen sicrwydd gan unigolion a gan y Comisiynydd fod gweithdrefn cwyno bwrpasol mewn lle gan y sefydliad i ddelio ag i ymateb i gwynion yn briodol. Mae'r gwaith arolygu fel cyflwynwyd uchod yn golygu nad oes sicrwydd ar hyn o bryd bod gan bob sefydliad weithdrefnau mewn lle all ymateb i gwynion yn ddigonol a all olygu nad oes angen ymyrraeth gan y Comisiynydd drwy ei waith ymchwilio a gorfodi er mwyn datrys cwynion a newid ymddygiad.

Bydd y Comisiynydd yn gohebu gyda phennaeth pob sefydliad nad ydynt yn cydymffurfio gan eu cyfeirio at yr adroddiad hwn a rhoi cyfnod byr iddynt gydymffurfio.

## Effaith diffygion gwasanaethau ar ddefnyddwyr y Gymraeg

Mae gwaith rheoleiddio'r Comisiynydd yno i warchod yr hawliau sydd yn cael eu creu gan safonau'r Gymraeg. Wrth fesur perfformiad cyrff, mae hefyd yn bwysig i gofio fod traweffaith ar fywydau bobl yn gallu digwydd pan mae pethau yn mynd o'i le o ran y safonau. Mae'r esiamplau isod yn adlewyrchu bod siaradwyr Cymraeg sydd mewn sefyllfa bregus yn cael eu heffeithio yn negyddol pan nad yw cyrff cyhoeddus yn trin eu dewis iaith gyda pharch ac urddas.

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn ymwneud â honiad o beidio derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol Cymraeg gan Gyngor i'w mam. Roedd yr achwynydd yn ofalwr llawn amser i'w mam, sy'n byw gyda dementia.

Dywedodd yr achwynydd bod y Cyngor wedi gwrthod pan wnaed cais am weithiwr cymdeithasol Cymraeg. Honnodd bod dau aelod o staff wedi dweud nad oedd gweithwyr cymdeithasol Cymraeg eu hiaith ar gael er iddo ofyn yn barhaus am y gwasanaeth. Wedi i'r Cyngor gychwyn darparu gwasanaeth gofal yn y Gymraeg maes o law, honnodd yr achwynydd, gan fod y staff Cymraeg yn gweithio'n rhan amser bod y gwasanaeth Cymraeg a ddarparwyd felly yn araf.

Ni ellir anwybyddu profiad yr achwynydd yn yr achos yma. Mae'r ffaith bod yr achwynydd yn teimlo ei bod hi a'i mam wedi cael anhawster derbyn gofal Cymraeg gan y Cyngor ac yn teimlo bod y gwasanaeth yn israddol pan dderbyniwyd y gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae'r ffaith fod yr achwynydd yn teimlo ei bod wedi profi anhawster wrth geisio cyfathrebu dewis iaith ei mam i'r Cyngor mewn cyfnod sydd yn barod yn anodd ac yn bryderus. Mae rhaid hefyd ystyried traweffaith peidio â derbyn gwasanaethau Cymraeg gan berson bregus sy'n byw efo dementia a'r holl ymchwil sy'n cefnogi fod derbyn gofal yn y dewis iaith yn cael traweffaith sylweddol ar allbynnau'r person ac ansawdd ei bywyd.

Ymwelodd aelod o'r cyhoedd â chanolfan trin canser mewn ysbyty cyffredinol. Ar ddiwedd y sesiwn baratoi ar gyfer derbyn ei driniaeth yn yr ysbyty, fe roddwyd ffurflen gydsynio ddwyieithog amlran iddo er mwyn rhoi ei gydsyniad i'r driniaeth.

Fe benderfynodd gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd yn honni y gwnaeth yr aelod o staff nodi wrtho cyn arwyddo'r ffurflen y dylai arwyddo ar yr ochr Saesneg (yn hytrach na'r ochr Gymraeg). Fe deimlodd bod yr aelod staff wedi rhoi anogaeth glir iddo arwyddo'r ochr Saesneg o'r ffurflen yn groes i'w ddewis iaith. Yn hytrach nag annog neu roi gwybod bod modd cwblhau ac arwyddo fersiwn Gymraeg y ffurflen, bu aelod o staff yn ei annog i gwblhau ac arwyddo ochr Saesneg y ffurflen, drwy fynegi iddo: "Sign on the English side, since we all understand English."

Digwyddodd hyn mewn cyfnod anodd i'r achwynydd pan oedd yn fregus ac yn wynebu triniaeth heriol, a byddai cael ei drin gyda pharch o ran ei ddewis iaith wedi gwneud gwahaniaeth mewn adeg pan oedd dan straen a phwysau sylweddol gan orfod ystyried ffactorau a gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â'i iechyd. Wrth gwblhau'r ffurflen roedd yn ymdrin â mater personol ac emosiynol, ac felly, er mwyn sicrhau parch ar urddas i'r achwynydd, roedd yn hanfodol i'r Bwrdd Iechyd hwyluso a pharchu ei ddymuniad i ddilyn y broses gydsynio yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg

Mae nifer o safonau ym mhlith y safonau a osodir ar gyrff yno i hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg neu i amlygu i ddefnyddwyr o'r Gymraeg fod gwasanaethau Cymraeg ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o safonau sydd yn ei wneud yn ofynnol i gyrff er esiampl cynnwys datganiad fod gwasanaeth cyfatebol Gymraeg ar gael. Megis datgan ar ffurflenni a dogfennau fod fersiwn cyfatebol Gymraeg ar gael, neu i gynnig yn rhagweithiol i ymgeiswyr swyddi fod modd gofyn am gyfweiliad yn Gymraeg neu fod cyfle i gyflwyno cais am swydd yn y Gymraeg.

Yn gyffredinol fel ag a nodir mewn meysydd penodol uchod, mae cydymffurfiaeth cyrff gyda'r safonau hybu a hyrwyddo yma yn isel.

Er mwyn cynyddu lefel defnydd o'r Gymraeg ac i amlygu argaeledd gwasanaethau Cymraeg mae rhaid i gyrff rhoi sylw i'r safonau hyn a gwella eu cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r safonau dan sylw a'r lefel cydymffurfiaeth ar draws cyrff y rheoliadau amrywiol.

Beth sydd yn amlwg yw bod cyrff wedi datblygu trefniadau da o ran cydymffurfio gyda safon hybu a hyrwyddo ar wefannau ond nad yw'r arfer yna wedi trosglwyddo i wasanaethau eraill. Mae'n dangos ei fod yn bosib cydymffurfio i lefel uchel iawn gyda safon o'r fath ond nid yw cyrff yn gwneud hyn yn gyson ar draws bob gwasanaeth.

	Rh1	Rh2	Rh4	Rh5	Rh6	Rh7
Rhaid ichi ddatgan—(a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	69%	45%	50%	78%	35%	15%
Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	22%	45%	28%	63%	25%	28%
Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg cyfatebol.	95%	95%	96%	90%	91%	96%
Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	14%	0%	50%	0%	0%	0%

## Cymharu canlyniadau

Nid oes data ar gael ar gyfer y flwyddyn 2020 i 2021 fodd bynnag, mae modd cymharu'r sefyllfa gyfredol gyda'r canlyniadau gwirio uniongyrchol o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos ar y cyfan fod perfformiad mewn nifer o feysydd gwasanaeth yn lled sefydlog – fel trafodwyd uchod mae hyn yn wir bennaf o ran gwasanaethau ffôn.

Mae rhai meysydd gwasanaeth ble mae lefel cydymffurfiaeth yn uwch fel trafodwyd uchod - gwefannau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae lefel uwch o hysbysebu swyddi yn y Gymraeg, ac mae trafodaeth lawn ar hyn yn yr adroddiad hwn.

Mae yna duedd fwy negyddol gydag ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg ac o ran ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg.

	2021-2022	2019-2020	Newid
<b>Gwasanaethau Ffôn</b>	53%	55%	
Delio gyda'r alwad yn y Gymraeg			
<b>Gohebiaeth</b>	81%	92%	
Derbyn ymateb Cymraeg i ohebiaeth Gymraeg (os derbyniwyd ateb)			
<b>Cyfryngau Cymdeithasol</b>	86%	74%	
Post ar Twitter neu Facebook ar gael yn Gymraeg			
<b>Gwefannau</b>	84%	81%	
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg			
<b>Hysbysebion Swyddi</b>	66%	47%	
Hysbyseb swydd ar gael yn Gymraeg			
<b>Ffurflenni</b>	69%	78%	
Ffurflen ar gael yn Gymraeg			
<b>Hunaniaeth corfforaethol</b>	83%	88%	
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol megis logos ar-lein neu ar ddogfennau ac ati			

# Ffocws ar gydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi

Ym Medi 2020 cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen gyngor yn cynnig arweiniad ar weithrediad y safonau llunio polisi a osodir ar gyrrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg:

[Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](#)

Roedd y ddogfen gyngor yn ymateb i wendidau nodwyd gyda threfniadau nifer o gyrrff wrth weithredu'r safonau hyn.

Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen, cynhaliodd y Comisiynydd nifer o ddigwyddiadau er mwyn gwella dealltwriaeth sefydliadau o ofynion y safonau hyn. Roedd pwyslais ar weithredu'r safonau llunio polisi yn effeithiol a'r pwysigrwydd o sefydlu trefniadau mewnol cadarn sy'n galluogi pawb sy'n gyfrifol o fewn cyrrff am gymryd penderfyniadau polisi i gydymffurfio â gofynion y safonau allweddol hyn er mwyn symud yr agenda yma yn ei flaen.

## Hunan asesiad o lefel cydymffurfiaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae sefydliadau wedi bod yn adrodd ar eu hunan asesiad o'u perfformiad gyda'r safonau llunio polisi.

Mae sefydliadau ar y cyfan yn adrodd yn eu hunan asesiadau eu bod yn diwallu gofynion y grŵp safonau - *'safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg'*. Mae'r safonau hyn yn gofyn i sefydliadau sicrhau eu bod yn ystyried cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi. Mae'r safonau hefyd yn gofyn fod cyrrff yn ystyried cyfleoedd i wneud eu penderfyniadau polisi yn llai andwyol o ran y Gymraeg ac yn fwy positif yng nghyd-destun cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Roedd 75% o'r cyrrff wnaeth adrodd (sef 71 corff) ar eu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn yn datgan eu bod yn cydymffurfio gyda sicrwydd 'uchel' a dim ond 1.5% oedd o'r farn nad oeddynt yn cydymffurfio yn ddigonol.

Roedd yr un lefel o gydymffurfiaeth 'uchel' yn cael ei adrodd o ran y safonau sy'n gosod gofynion o ran dogfennau ymgynghori.

Fodd bynnag, er gwaethaf y ffigwr uchel o sicrwydd a adroddwyd yn yr hunan asesiad, nid yw profiad y Comisiynydd yn cefnogi'r safbwynt hwnnw. Mae ymyrraeth y Comisiynydd yn sgil cwynion neu geisiadau am dystiolaeth, fel arfer yn darganfod nad yw trefniadau cyrrff yn cael ei dilyn bob tro ac mae yna ansicrwydd yn parhau ynghylch pryd mae'r safonau yn gymwys - hynny yw, pryd y mae penderfyniad cynhelir gan sefydliad yn destun i'r safonau gan ei fod yn 'benderfyniad polisi'.

Mae hefyd yn wir i nodi fod cynnydd yn lefel cydymffurfiaeth cyrrff gyda'r safonau llunio polisi yn dod yn sgil ymyrraethau'r Comisiynydd yn dilyn ymchwiliadau, ac mae gwella trefniadau a chanllawiau sefydliadau gyda'r safonau llunio polisi wedi bod yn destun gwaith gorfodi gan y Comisiynydd.

Mae'n bwysig bod bob sefydliad sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn deall eu cyfrifoldebau ac yn sicrhau ei bod yn datblygu prosesau penderfynu sy'n sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau llunio polisi gan fod oblygiadau wrth beidio â chydymffurfio â'r gofynion.

### Achos Tribiwnlys y Gymraeg

Mae arweiniad wedi ei roi gan Dribiwnlys y Gymraeg (Y Tribiwnlys) yn y cyd-destun dehongli beth olygir gan 'benderfyniad polisi' yn ddiweddar yn achos *Cyngor Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg (TyG/WLT/21/01)*.

Mae'r penderfyniad yn un arwyddocaol am ei fod yn rhoi eglurder ar y dehongliad o'r term "*penderfyniad polisi*" fel y mae'r term hwnnw'n cael ei ddefnyddio ym Mesur y Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg.

### Cefndir yr achos

Yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad i'r ffordd y gwnaeth Cyngor Abertawe ei benderfyniad nad oedd angen adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg Felindre fel adnodd cyhoeddus yn dilyn ei chau fel ysgol, ac na aseswyd effaith y penderfyniad a ddaeth yn sgil hynny, sef i drosglwyddo ased cymunedol i'r sector breifat, ar yr iaith Gymraeg.

Arweiniodd yr ymchwiliad hwn at ddyfarniad bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) gan iddo fethu ag ystyried effaith y penderfyniad polisi newydd hwn ar y Gymraeg.

Apeliodd y Cyngor yn erbyn y dyfarniad i Dribiwnlys y Gymraeg gan ddadlau nad oedd penderfyniad polisi newydd wedi ei wneud ond yn hytrach, mai penderfyniad gweithredol a wnaed yn unol â'r Cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

### Penderfyniad a dehongliad y Tribiwnlys

Gwrthododd y Tribiwnlys apêl y Cyngor, a chadarnhaodd dyfarniad y Comisiynydd bod y Cyngor wedi methu cydymffurfio â safonau 88, 89 a 90. Prif seiliau'r penderfyniad oedd:

- Bod y term "penderfyniad polisi" yn golygu mwy na dogfen bolisi ysgrifenedig, a gall gynnwys penderfyniadau a wneir ynghylch arfer swyddogaethau sefydliad;
- Bod y diffiniad ym Mesur y Gymraeg a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg felly i'w dehongli'n ehangach na'r defnydd cyffredin o'r gair "polisi" a ddefnyddir yn aml mewn trafodaeth gyffredin i olygu dogfen ysgrifenedig;
- Golyga hyn nad penderfyniad ynghylch sut i wneud penderfyniad yn unig yw penderfyniad polisi, ond y gall gynnwys y penderfyniad ei hun sy'n ymwneud â chynnal busnes corff. Gallai hefyd gyfeirio at gynnal ei fusnes e.e. cau ysgol, lleoli adeilad cymunedol, symud neu ailstrwythuro gwasanaeth, cael gwared ar ased cymunedol.

- Mae'r lefel y gwneir penderfyniadau arni, strategol neu weithredol, yn berthnasol. Roedd y penderfyniad hwn yn cynnwys penderfyniad gan swyddogion ac aelodau lefel uchel y Cyngor. Nid oedd yn benderfyniad arferol y gallai swyddogion y Cyngor ei wneud ar ben eu hunain, ac felly nid oedd yn benderfyniad gweithredol.
- Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn datgan mai "ystyr *"penderfyniad polisi"* yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall...". Roedd y penderfyniad i drosglwyddo'r ysgol o fod yn ased cyhoeddus sy'n eiddo i'r Cyngor i fod yn eiddo i'r sector preifat, yn benderfyniad ynghylch cynnal busnes y Cyngor ac felly roedd gofyniad i gydymffurfio â safonau 88, 89 a 90.

Mae dyfarniad llawn y Tribiwnlys i'w weld ar wefan Tribiwnlys y Gymraeg:

[TYG/WLT/21/01: Cyngor Dinas a Sir Abertawe | Welsh Language Tribunal \(llyw.cymru\)](https://www.welshlanguage.gov.uk/tyg/wlt/21/01)

### Dyfarnu grantiau a chymorth ariannol

Mae cydymffurfiaeth cyrff gyda'r safon llunio polisi sy'n gosod gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol, gyda gofyniad i'r polisi hwnnw ystyried materion o effeithiau ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau ar grantiau; yn isel.

Er enghraifft, dim ond 50% o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon yma o fewn y set cyrff a enwir yn Rheoliadau rhif 6 (sef colegau addysg bellach a phrifysgolion) sy'n cydymffurfio â'r gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau a chymorth ariannol yn unol â gofyniad y safon berthnasol.

Yn ogystal, 25% yn unig o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon yma o fewn Rheoliadau rhif 2 (cyrff cenedlaethol Cymru) sy'n cydymffurfio â'r gofyniad i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau sy'n ystyried effeithiau ar y Gymraeg yn unol â gofyniad y safon berthnasol.

Mae'n destun pryder hefyd fod 32% o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r safon hyn o dan Reoliadau rhif 1 (sef awdurdodau lleol, Gweinidogion Cymru a'r parciau cenedlaethol) yn parhau i beidio cydymffurfio â gofyniad y safon i lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau er eu bod yn ddarostyngedig i'r safon ers 2017.

### Ymchwilio a gorfodi safonau llunio polisi:

Mae'r Comisiynydd yn derbyn cwynion gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau polisi gwnaed gan gyrff, ble mae amheuaeth nad yw gwir effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ystyriaethau am beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wedi ei ystyried yn ddigonol.

Mae nifer o'r cwynion ac ymchwiliadau ystyriwyd gan y Comisiynydd yn ymwneud â phenderfyniadau awdurdodau lleol wrth ymdrin ag ysgolion, ac mae peth cynsail wedi eu gosod bellach gan y Comisiynydd yn y maes hwn (gweler cofrestr camau



gorfodi ar wefan y Comisiynydd: [Cofrestr Camau Gorfodi \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://CofrestrCamauGorfodi.comisiynyddygyymraeg.cymru)).

Mae'r achosion ym maes addysg yn adlewyrchu ar anawsterau mae rhai awdurdodau yn adnabod wrth ystyried yr angen i gynnal asesiadau effaith ar y Gymraeg dan gyfundrefnau gwahanol, sy'n cwrdd â gofynion rheoliadau gwahanol. Mae'r Comisiynydd yn glir fodd bynnag, fod dyletswyddau statudol corff fel y amlygir o dan safonau'r Gymraeg yn glir ac mae angen eu diwallu, hyd yn oed os oes gofyniad o dan reoliadau gwahanol am asesiadau ar effaith ar y Gymraeg am resymau gwahanol. Mae'r gofyniad i gydymffurfio â safonau llunio polisi yn rhai statudol, ar wahân, a phwysig i'w diwallu yng nghyd-destun pob penderfyniad polisi.

### **Ymchwilio a gorfodi: Safonau llunio polisi**

Cynhaliwyd ymchwiliad yn ymwneud ag ymgynghoriad ar ad-drefnu addysg Saesneg; er mai ymgynghoriad gan y Cyngor ar ehangu'r ddarpariaeth addysg Saesneg oedd hwn, cyflwynwyd cwyn i'r Comisiynydd am nad ystyriwyd yr effaith bosib ar y Gymraeg gan y Cyngor wrth ymgynghori ar ei chynlluniau. Cadarnhaodd y Cyngor bod yr ymgynghoriad yn ddiffygiol gan nad ystyriwyd y Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg o fewn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Dyfarnwyd na fu cydymffurfiaeth gyda safon llunio polisi a gosodwyd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau hyn o fewn tri mis. Mi wnaeth y Cyngor dderbyn sylwadau'r Comisiynydd yn llawn gan gyflwyno dogfennau ymgynghori newydd ar bob penderfyniad polisi oedd yn ystyried y Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg fel sydd yn ofynnol. Yn ogystal, mi wnaeth yr ymchwiliad gynnig cyfle i'r Cyngor newid ei gweithdrefn ar safonau llunio polisi o fewn y sir a mabwysiadwyd gweithdrefn newydd gan y Cyngor ynghyd â dogfennau newydd wrth ymgynghori ar unrhyw fater o bolisi a materion sydd yn ymwneud â'r Gymraeg.

### **Gwaith strategol gyda'r safonau llunio polisi**

Mae'r Comisiynydd o'r farn fod effaith y safonau llunio polisi yn eang ac yn debyg o gael traweffaith sylweddol ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol; ac felly mae'n allweddol bod gofynion y safon yn cael eu gweithredu a'u diwallu yn llawn.

Pan nad yw effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg yn cael ei asesu yn ystyrlon, mae effaith ar ddefnyddwyr y Gymraeg yn gallu fod yn drawiadol ac yn hir dymor. Mae'r penderfyniadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn gallu cael effaith sylweddol ar allu unigolion i fyw eu bywyd yn Gymraeg, nid yn unig o fewn meysydd statudol megis yn yr ysgol neu gyda gwasanaethau, ond hefyd yn gymdeithasol. Mae'r safonau llunio polisi yno i gefnogi sefydliadau i feddwl yn ofalus am y traweffaith posib hwn ac yn cefnogi cyrff i gynllunio ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn

ymarferol ac i hybu a hwyluso cymdeithas ble nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

Mae angen i sefydliadau ystyried ymhellach y lefel o hyfforddiant sydd wedi ei roi i staff ar sut i gynnal asesiadau ac ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg yn sgil penderfyniadau polisi. Mae adborth cyrff a gwaith ymchwilio a gorfodi'r Comisiynydd yn arwain at ganfyddiad fod angen mwy o fuddsoddiad a gwella sgiliau pobl sy'n gyfrifol am ystyried effaith posib penderfyniadau ar y Gymraeg ar bob lefel. Yn aml, mae'r asesiadau effaith y mae sefydliadau yn eu cwblhau yn arwynebol, ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth yn ddigonol yr ystod posib o effeithiau all fod ar y Gymraeg yn sgil penderfyniad. Mae angen buddsoddiad sylweddol mewn sgiliau swyddogion ac uwch swyddogion cyrff er mwyn eu galluogi i gynllunio ymatebion strategol sy'n galluogi cynnydd yn y maes hwn.

Mae cefnogi cydymffurfiaeth gyda'r safonau hyn felly yn parhau yn amcan strategol pwysig i'r Comisiynydd. I'r perwyl hwn felly mae'r Comisiynydd yn bwriadu cynnal gweithdai gyda sefydliadau unigol i godi lefelau dealltwriaeth o ofynion y safonau llunio polisi ynghyd â chynnal gweithdai ar feysydd polisi penodol.

# Ffocws ar gydymffurfiaeth wrth hysbysebu swyddi a phrosesau recriwtio

## Cefndir

Yn adroddiad sicrwydd 2018 i 2019: “Hawlio Cyfleoedd” bu i'r Comisiynydd ddatgan:

*“Mae profiad defnyddwyr yn ddibynnol ar sefydliadau'n cael digon o staff sy'n siarad Cymraeg, a bod y staff hynny yn y rolau cywir”.*

Rhoddyd nifer o argymhellion i sefydliadau i geisio gwella ar eu trefniadau ar gyfer recriwtio a hysbysebu swyddi yn yr adroddiad sicrwydd hwnnw, yn ogystal â chyngor ar ddarparu hyfforddiant, er mwyn gallu gwella effeithlonrwydd y gweithle yn gyffredinol wrth gydymffurfio gyda holl safonau'r Gymraeg. Argymhellwyd fod sefydliadau yn gwneud gwaith yn y meysydd canlynol er mwyn gweld cynnydd yn dilyn canlyniadau gwael o ran cydymffurfiaeth yn y flwyddyn honno:

- adnabod sgiliau'r gweithlu presennol
- gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol
- cynnal asesiad ystyrion o anghenion iaith pobswydd wag
- denu siaradwyr Cymraeg i weithio i'r sefydliad
- arloesi er mwyn rheoli'r galw am staff
- hyfforddi a dyrannu staff yn effeithiol

## Y sefyllfa gyfredol

Mae'r Comisiynydd yn parhau o'r farn nad oes newid sylfaenol wedi digwydd wrth gynllunio a gweithredu yn y maes recriwtio, asesu sgiliau Cymraeg a datblygu sgiliau'r gweithle er mwyn gwella lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau gydag ystod safonau'r Gymraeg yn gyffredinol.

Mae cydymffurfiaeth sefydliadau gyda safonau sy'n ddibynnol ar allu aelodau staff i ymateb yn Gymraeg - megis wrth ddelio â galwadau ffôn, yn is nag ydy gyda safonau ble mae modd dibynnu ar gyfieithu neu baratoi o flaen llaw.

Heb fod staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu gwasanaethau yn atebol, nid yw cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma yn mynd i wella.

Mae'n rhaid felly i sefydliadau ystyried o ddechrau'r broses recriwtio pa sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi ac yna dilyn asesiad ystyrion, datblygu hysbysebion a pheynnau recriwtio sy'n hyrwyddo'r angen am sgiliau Cymraeg yn glir ac yn denu siaradwyr i'r rolau hyn drwy hybu'r Gymraeg drwy gydol y broses recriwtio.

Mae hefyd angen gwella'r ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol, drwy adnabod staff sydd efo sgiliau iaith ond nid yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial neu ble mae angen datblygu hyder unigolion i ddefnyddio eu Cymraeg gydag eraill.

## Ffocws strategol

I'r perwyl hwn, dros gyfnod cynllun strategol nesaf y Comisiynydd, bydd ffocws pellach ar wella perfformiad o ran asesu sgiliau a gwella ansawdd prosesau recriwtio er mwyn gweld cynnydd wrth gael sgiliau Cymraeg o fewn gweithle cyrff sy'n

ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg.

Bydd y Comisiynydd felly yn cymryd camau ac yn rheoleiddio'r maes strategol pwysig hwn wrth iddo ddod ar draws methiannau. Mae rhybudd yma i gyrff cyhoeddus ystyried a yw eu trefniadau yn ddigonol ym maes recriwtio, datblygu sgiliau'r gweithle ac asesu angen am sgiliau Gymraeg mewn rolau allweddol. Bydd y Comisiynydd yn agor ymchwiliadau ac yn gorfodi newid yn y maes hwn ble mae diffygion yn parhau.

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag a newydd ac i gadw copi o'r asesiadau hynny. Bydd y Comisiynydd yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o sut mae sefydliadau yn asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg a sut mae hynny'n cyfrannu at eu llwyddiant i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg. Y gobaith yw y bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn yn gyfle i sefydlu gwaelodlin a throsolwg o'r sefyllfa bresennol er mwyn llywio gwaith pellach yn y dyfodol.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn gweld y berthynas sydd rhwng defnyddio'r Gymraeg yn fewnol o fewn cyrff gyda gwella sgiliau a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Bydd felly hefyd yn canolbwyntio ar ystyried sut mae sefydliadu yn datblygu polisïau defnydd mewnlol o'r Gymraeg er mwyn annog a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.


Mae arfer llwyddiannus wedi dod i'r amlwg yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn a bydd modd adeiladu ar hyn dros y blynnyddoedd nesaf. Mae'r arfer yn dangos dulliau hawdd a syml gall cyrff fabwysiadu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithle.

[annog-defnydd-or-gymraeg-yn-y-gweithle.pdf \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](#)

### **Hysbysebu swyddi yn Gymraeg**

Mae'r Comisiynydd yn flynyddol yn gwirio hysbysebion swyddi gwnaed gan sefydliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg.


Yn 2021-22 nodwyd fod 66% o'r hysbysebion swyddi arolygwyd wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg, mae hyn yn dangos cynnydd ers yr adroddiad sicrwydd uchod gael ei gyhoeddi yn 2019. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gynydd digonol gan ystyried y gofynion fod bob hysbyseb perthnasol yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg.



\*dim data ar gyfer 2021

## Sefyllfa sectorol

Fodd bynnag mae'r darlun yn gymysg ar draws sectorau, gyda sicrwydd y bydd sefydliadau yn cyhoeddi hysbysebion yn Gymraeg yn amrywio:



Er ei bod yn anodd gwneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng y perfformiad a welwyd yma o ran hysbysebu swyddi a chydymffurfiaeth cyrff yn fwy cyffredinol gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu, mae'n glir fod yna gydberthynas rhwng y cyrff sy'n perfformio'n wael ar draws y categorïau hyn o safonau a'r cyrff sydd heb drefniadau hysbysebu a recriwtio digonol i ddiwallu gofynion y safonau.

Mae'r arolygon yn dangos fod cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 7 (sef Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol); **yn cyhoeddi dim ond 24% o'u hysbysebion swyddi yn Gymraeg.**

Mae problemau gyda systemau a meddalwedd wedi achosi methiannau i

gydymffurfio yn achos rhai cyrff sy'n ddarostyngedig i reoliadau safonau'r Gymraeg rhif 6 - sef colegau addysg bellach a phrifysgolion. Bu i ganfyddiadau arolygon y Comisiynydd o fewn y sector yma arwain at ymyraethau er mwyn gweld gwella a chynnydd yn sgil nodi nad oedd defnydd o systemau ar-lein yn cefnogi cydymffurfiaeth.

### **Ymchwilio a Gorfodi ym maes sgiliau a recriwtio:**

Cynhaliwyd y Comisiynydd ymchwiliad o dan adran 71 y Mesur yn dilyn nodi ar ôl gwaith monitro ac arolygon safonol fod diffyg cydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran gofynion recriwtio gan ddau sefydliad addysg bellach drwy ddefnydd o feddalwedd a phhecyn recriwtio ar lein. Roedd y feddalwedd dim ond yn galluogi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliadau drwy gyfrwng y Saesneg wrth gyflwyno gwybodaeth gychwynnol a chreu cyfrif ar y wefan ymgeisio am swyddi. Roedd hysbysebion swyddi hefyd yn cynnwys ymadroddion Saesneg yn unig at yr hysbysebion Cymraeg.

Roedd y sefydliadau yn cydnabod nad oeddynt yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau gweithredu penodol sydd yn gofyn am ffurflenni cais yn swyddi i fod ar gael yn Gymraeg yn ogystal â dyletswyddau ynghylch gwybodaeth am swyddi i fod ar gael yn Gymraeg. Eglurwyd bod hynny o ganlyniad i ddata a thestun oedd yn cael ei dynnu'n uniongyrchol trwy system darparwyd gan drydydd parti.

Dyfarnodd y Comisiynydd fod methiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg o ran y ffurflen gais, a bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan fod y dudalen gychwynnol i ymgeisio am swyddi dim ond ar gael yn Saesneg.

Dyfarnwyd hefyd bod methiant i gydymffurfio o ran hysbysebu swyddi gan nad oedd pob elfen ar gael yn Gymraeg a bod geirfa Saesneg yn unig wedi eu cynnwys mewn hysbysiadau am swydd yn Gymraeg.

Mae'r ymchwiliadau uchod yn dangos yr angen i sefydliadau sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle o ran y Gymraeg ar gyfer systemau amrywiol a ddefnyddir ganddynt, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir trwy drydydd parti, neu drwy broses gaffael.

Mae'r egwyddor a sefydlwyd ym Mesur y Gymraeg na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yr un mor berthnasol i wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan sefydliadau cyhoeddus â'r rheini a ddarperir drwy gontract.

Mae'n bosib bod y systemau hynny wedi bod mewn lle ers cyfnod hir gan y sefydliad, ac yn wir cyn dyfodiad y

safonau. Ond mae'r gofynion yn parhau o ran y safonau. Mae'n hanfodol bod trafodaethau o ran y Gymraeg yn digwydd cyn gynted â phosib wrth osod systemau newydd.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn nogfen gyngor y Comisiynydd [Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus: Ystyried y Gymraeg](#) ar sut y gellir sicrhau bod gofynion y safonau yn cael eu hystyried wrth gaffael gwasanaethau. Mae'r ddogfen hefyd yn trafod yr angen i adolygu trefniadau gyda darparwyr o ran y Gymraeg er enghraifft ble mae cytundeb hir dymor i ddarparu ar gyfer y sefydliad.

Mae'r cyngor yn ystyried y dull y dylid ei ddefnyddio er mwyn cynnwys, gweithredu a monitro'r rhwymedigaethau hynny'n effeithiol drwy gydol proses dendro a thrwy oes y contract sy'n dilyn o'r broses honno.

### Gofynion wrth recriwtio

Er bod cynnydd wedi bod mewn swyddi sy'n cael eu hysbysebu gan gyrrff yn y Gymraeg, nid yw'n dilyn bob tro fod y dogfennau cefnogol ar gyfer y swyddi hefyd ar gael yn Gymraeg (dim ond 9/10 hysbyseb Cymraeg sy'n cynnwys dogfennau atodol cywir yn Gymraeg) na bod y Gymraeg yn cael ei hybu a hwyluso ymhellach yn ystod y broses recriwtio.

Canfyddiad yr arolygon gan swyddogion y Comisiynydd yw bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi mewn 50% o'r achosion arolygwyd.

Dim ond 36% o'r hysbysebion swyddi arolygwyd oedd yn cynnwys datganiad fod modd gwneud cais am swydd yn Gymraeg .

Mae'r arolygon hefyd yn dangos nad oes cydymffurfiaeth ddigonol gyda'r safon sy'n gosod y gofyniad:

*“Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.”*

Mae'r safon hon yn un bwysig er mwyn hybu dealltwriaeth pobl bod modd gwened ceisiadau yn Gymraeg ac i roi sicrwydd iddynt na fydd cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg yn effeithio ar y proses recriwtio.

Mae hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ystod y broses recriwtio yn holl bwysig er mwyn sefydlu bod y sefydliad yn croesawu defnydd o'r Gymraeg ac yn weithle ble mae yna ddefnydd naturiol o'r Gymraeg. Er mwyn denu siaradwyr Cymraeg mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau eu bod yn ei gwneud yn amlwg fod y Gymraeg yn cael defnydd yng ngweithrediad y sefydliad.

Dim ond 7% o'r hysbysebion swyddi arolygwyd oedd yn cynnwys ffurflen gais ble roedd modd i ymgeiswyr nodi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae hefyd yn ofyniad i gyrff hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn cyfweiliadau, drwy ofyn yn rhagweithiol i ymgeiswyr os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg:


*“Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol)”.*

Yn gyffredinol, mae'r gwaith arolygu gynhaliwyd gan swyddogion y Comisiynydd gyda gofynion y safonau sy'n gysylltiedig â recriwtio yn canfod mai dim ond **10% o'r hysbysebion a phrosesau recriwtio sydd yn rhoi sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth.**

## Asesu'r angen am sgiliau Gymraeg

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau gweithredol clir ar sefydliadau wrth iddynt recriwtio swyddi newydd neu wag, bod rhaid iddynt asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ac yna mynd ymlaen i gategoreiddio'r swyddi hynny fel rhai ble mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd, bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol neu nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

O'r hysbysebion swyddi a ddadansoddwyd eleni, dyma sut cafodd y categori o'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ei nodi wrth hysbysebu:



Fel y gwelir o'r tabl uchod, methodd mewn 61% o'r hysbysebion arolygwyd â chrybwyll pa lefel sgiliau sydd ei angen ar y swydd, neu nid oedd hynny wedi'i nodi'n briodol.



Mae'r ffaith bod hanner y sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn methu cydymffurfio gyda'r gofynion i ddatgan yn glir y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen i gyflawni swydd yn bryder gan fod methu cymryd y cyfle i ddadansoddi anghenion iaith ar gyfer swydd yn arwain at risg o fethu gallu diwallu gofynion safonau cyflenwi gwasanaeth. Mae diffyg asesu a chynllunio i'r dyfodol yn debyg o gael effaith hir dymor ar allu corff i wneud i gwrdd â dyletswyddau iaith ac i gwrdd â dymuniadau defnyddwyr.

Mae hyn yn elfen o'r gwaith recriwtio sydd angen sylw ar frys gan sefydliadau er mwyn iddynt allu gwella ar eu gallu i gynllunio'r gweithle ac i ddosbarthu sgiliau Cymraeg staff i'r llefydd all gael effaith.

Mae cael gweithlu gyda sgiliau Cymraeg digonol sydd wedi ei dosbarthu yn strategol ar draws swyddogaethau'r sefydliad yn hanfodol ar gyfer llwyddiant wrth ddiwallu gofynion safonau'r Gymraeg.

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu dogfen gyngor cynhwysfawr [Recriwtio \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](https://www.comisiynyddygydraeg.cymru) ac mae angen i sefydliadau gymryd sylw o'i gynnwys fel mater o frys.

### **Ymchwilio a gorfodi ym maes asesu'r angen am sgiliau Gymraeg**

Cynhaliwyd ymchwiliad gan y Comisiynydd i fethiant honedig corff i gynnal asesiad ystyrlon o ofynion y Gymraeg i swydd lefel tîm rheoli. Er i'r corff gynnal asesiad, casglodd y Comisiynydd nad oedd yr asesiad hwnnw wedi bod yn ddigonol i sicrhau bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r holl ffactorau allweddol, megis cyfrifoldebau'r swydd, ymwneud â'r cyhoedd a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru a chapasiti ieithyddol o fewn y tîm rheoli. Yn ogystal, dyfarnwyd bod y corff wedi methu â chydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg am iddo fethu â chategoreiddio'r swydd yn unol â'r categorïau sydd wedi eu rhestru yng ngeiriad y safon. Yn sgil y dyfarniad o fethiant, gwnaeth y Comisiynydd yn ofynnol i'r corff gynnal adolygiad llawn o'i broses ar gyfer cynnal asesiad o anghenion ieithyddol swyddi a diwygio ei dempled ar gyfer cynnal yr asesiad hwnnw.

# Cydymffurfiaeth cyrff a dyletswyddau cynlluniau iaith

## Cefndir

Er gwaetha'r ffaith fod 124 o sefydliadau cyhoeddus bellach yn gweithredu safonau'r Gymraeg, mae nifer fawr yn parhau i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am reoleiddio cydymffurfiaeth gyda'r ddwy gyfundrefn.

Mae cynllun iaith yn nodi sut y bydd sefydliad yn rhoi effaith, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau, ac yn rhesymol ymarferol, i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef - wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.

O ganlyniad i'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, mae nifer o'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn cael effaith sylweddol ar gyfleoedd pobl yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, ac felly mae perfformiad a chydymffurfiaeth y cyrff yma gyda'u dyletswyddau iaith yn parhau yn allweddol bwysig, ac yn ganolog i waith y Comisiynydd.

## Dadansoddiad o'r perfformiad

Ar y cyfan, mae perfformiad cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn siomedig, ac mae'n fater o bryder fod nifer o gyrff yn methu â darparu gwasanaethau craidd megis ateb gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, ateb y ffôn yn Gymraeg neu sicrhau fod cynnwys tudalennau ar wefannau ar gael yn Gymraeg o gwbl. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod nifer fawr o'r sefydliadau dan sylw wedi bod yn gweithredu cynlluniau iaith ers blynyddoedd lawer.

Mae perfformiad gwael rhai sefydliadau yn golygu, ar gyfartaledd, bod lefel cydymffurfiaeth gydag ymrwymadau cynlluniau iaith yn isel ac nad yw'n cynnig unrhyw sicrwydd i'r cyhoedd yng Nghymru y bydd gwasanaethau o safon a gwasanaeth dibynadwy ar gael gan y sefydliadau hyn.

Rhaid cydnabod fodd bynnag, bod y darlun yn gymysg, a bod rhai o'r cyrff arolygwyd yn cynnal gwasanaethau o safon uchel ac a lefel cydymffurfiaeth dda.

Canfyddiad y Comisiynydd yw bod cyrff sy'n buddsoddi adnoddau ac yn sicrhau arweiniad clir, gyda chyfrifoldebau dros gydymffurfio gyda dyletswyddau wedi eu rhoi i unigolion neu dîm o fewn y sefydliad, yn perfformio llawer gwell na chyrff pan fo'r cyfrifoldeb wedi ei gynnwys o fewn swyddogaethau cyffredinol. Mae'n gynyddol amlwg, os nad oes cyfrifoldeb ar lefel uchel o fewn corff am sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau o ran y Gymraeg, mae'n annhebygol y bydd y corff yn perfformio'n dda o ran cynnal gwasanaethau Cymraeg o safon neu gynllunio a threfnu gwellhad parhaus o ran darpariaethau.

## Prif ganfyddiadau arolygon gwirio gwasanaethau cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith:

Delio gyda galwad ffôn yn Gymraeg	47%
Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg	62%
Negeseuon yn Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol	30%
Tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg	52%
Hysbysebu swyddi yn Gymraeg	5%
Dogfennau ar gael yn Gymraeg	44%
Ffurflenni ar gael yn Gymraeg	58%
Defnydd o hunaniaeth corfforaethol yn Gymraeg	59%

### Gwasanaethau digidol:

Fel y trafodwyd yn adroddiad sicrwydd y Comisiynydd y llynedd (Camu ymlaen, 2020-21), gwnaeth penderfyniadau'r cyrff o ran ymateb ac addasu eu gwasanaethau yn sgil y pandemig, a'u gallu i symud gwasanaethau ar lein, effeithio'n sylweddol ar y ffordd yr oedd modd i'r cyhoedd barhau i ddefnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg.

Serch hynny, ac yn enwedig dros y cyfnod diweddaraf, gwelwyd cynnydd yng ngallu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Gymraeg ar lein – cynnydd allweddol o safbwynt y datblygiadau hir dymor i ddigideiddio gwasanaethau craidd nifer o sefydliadau, a'r pwyslais ar sicrhau hygyrchedd ar lein i gwsmeriaid.

#### Cynnydd mewn gwasanaethau ar-lein dwyieithog

Mae nifer o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU wedi llwyddo i greu gwasanaethau ar-lein newydd yn ddwyieithog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) wedi sicrhau bod eu holl wasanaethau ar-lein ar gael ac yn hygyrch i gwsmeriaid trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Uned y Gymraeg y DWP yn parhau i ymwneud ag ac i gefnogi'r gwahanol dimau sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau hyn, er mwyn sicrhau bod diweddariadau i'r holl wasanaethau ar-lein yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth Cymraeg, ar yr un pryd ag y cânt eu gwneud yn Saesneg.

Gwelwyd cynnydd parhaol yn nifer y gwasanaethau dwyieithog gan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA). Mae 10 dolen at dudalennau glanio ar gyfer gwasanaethau cerbyd a 12 dolen uniongyrchol at drafodion gyrwyr. Mae dwy ddolen uniongyrchol arall ar gyfer prynu rhif cofrestru cerbyd a thudalen gwybodaeth am gerbydau sydd wedi'u heithrio o dreth cerbyd hefyd yn ddwyieithog. Gwelwyd cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg ar lein y DVLA, yn rhannol oherwydd ei fod yn haws erbyn hyn i sicrhau mynediad at y gwasanaethau Cymraeg.

Mae Cofrestrfa Tir EM, fel rhan o'u rhaglen drawsnewid drwy wefan gov.uk, hefyd wedi sicrhau fod nifer o'u gwasanaethau ar-lein ar gael yn ddwyieithog. Mae'r gwasanaethau yma'n cynnwys 'Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo', 'Mynegai Prisiau Tai y DU', 'Y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol' a 'Chwilio am Bridiannau Tir Lleol.'

### Amlygrwydd y Gymraeg

Gyda golwg ar symud fwyfwy at ddarpariaeth ddigidol ac ar lein, eleni fe arolygwyd faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan y sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ar eu cyfryngau cymdeithasol. Mesurwyd amlygrwydd y Gymraeg pan oedd cyrff yn trafod materion yng Nghymru neu yn gysylltiedig â Chymru. Gwnaeth yr arolygon ganfod mai dim ond **30% o'r cynnwys arolygwyd ar Twitter a Facebook oedd yn ddwyieithog.**

Yn ogystal, wrth arddel eu hunaniaeth gorfforaethol, roedd sefydliadau yn defnyddio/cyhoeddi eu hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog neu Gymraeg yn ystod 56% o'r esiamplau arolygwyd.

Golygai hyn yn aml nad yw'r Gymraeg yn cael ei hybu gan y sefydliadau ar-lein neu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n debygol fod hyn yn arwain at lai o ymwneud gyda sefydliadau yn y Gymraeg gan nad yw'n cael ei hyrwyddo.

### Hysbysebu Swyddi

Roedd yr arolygon a gynhaliwyd wedi canfod fod lefel cydymffurfiaeth sefydliadau o ran hysbysebu swyddi yn y Gymraeg, yn isel iawn. **Dim ond mewn 5% o hysbysebion a arolygwyd** oedd yr hysbyseb ar gael yn Gymraeg, a phrin yw'r gwaith o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn proses recriwtio'r sefydliadau.

Fel sydd yn cael ei drafod yn yr adran ar hysbysebu swyddi a recriwtio yn yr adroddiad hwn, mae sefyllfa cydymffurfiaeth o dan gyfundrefn y safonau yn bryderus, ond rhaid nodi fod y lefel defnydd o'r Gymraeg y mae'r sefydliadau cynllun iaith arolygwyd yma yn isel iawn. Mae'r cyngor ynghylch gwella cyrhaeddiad a dyletswyddau wrth hysbysebu felly'r un mor berthnasol ac mae angen newid sylweddol yn amlygrwydd y Gymraeg wrth hysbysebu swyddi yng Nghymru gan y cyrff dan sylw.

## Ymchwilio dyletswyddau cynlluniau iaith

Mae'r cwynion, o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, a gyflwynwyd at sylw'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod 2021-2022 yn amrywiol iawn. Derbyniwyd 15 cwyn gan aelodau o'r cyhoedd yn erbyn cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith, ac roedd 13 ohonynt yn gwynion dilys.

Derbyniwyd cwyn am fethiant i dderbyn gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg a gwasanaeth wyneb yn wyneb yn y Gymraeg.

Ymddengys mai'r prif bryder sy'n tueddu arwain at gwynion yw'r diffyg adnoddau a ffurflenni Cymraeg, ynghyd â dolenni ar wefannau sy'n arwain at ddeunyddiau Saesneg, sy'n adlewyrchiad efallai o'r faith fod nifer o'r cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith yn symud yn fwy at hybu gwasanaethau ar lein ac o ganlyniad, y daw gwendidau i'r amlwg.

Mae nifer o gwynion hefyd yn ymwneud ag oedi wrth ymateb i ohebiaeth a anfonwyd yn Gymraeg, sydd eto yn adlewyrchu'r ffaith nad oes gan nifer o'r cyrff sy'n ddarostyngedig i gynllun iaith drefniadau digonol mewn lle i sicrhau gwasanaethau yn y Gymraeg.

### Ymchwiliad y DVSA

Cynhaliwyd yr ymchwiliad yn sgil amheuaeth am fethiannau honedig ar ran yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) i weithredu ei chynllun iaith Gymraeg yn llawn. Roedd yr ymchwiliad yn gysylltiedig ag amheuon ynghylch gweithrediad tri chymal o fewn cynllun iaith Gymraeg y DVSA o ran darparu profion gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnaeth yr ymchwiliad ganfod bod y methiant hwn yn eang ac yn parhau. Mae'r methiant yn rhwystro pobl rhag defnyddio'r Gymraeg ac yn cael yr effaith o annog defnyddio'r Saesneg. Mae hynny oherwydd bod rhaid i ddefnyddwyr y gohiriwyd eu profion wneud y dewis rhwng aros am gyfnodau maith am brawf yn Gymraeg neu ddewis gwneud prawf gyrru yn y Saesneg heb oedi. Ceir tystiolaeth ddiamheuol o hynny yn yr adroddiad ei hun.

Yn sgil yr ymchwiliad, cyflwynwyd 5 o argymhellion i'r sefydliad: i) bod y DVSA yn gwneud newidiadau i'r modd maent yn cynnig dewis iaith pan yr archebu profion gyrru ymarferol ar-lein er mwyn sicrhau bod profion gyrru ymarferol Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac yn gyfartal â'r Saesneg; ii) ei bod yn adrodd ar ystadegau mewn perthynas â chanslo profion, a'r hyn sy'n digwydd i geisiadau am brofion Cymraeg nad ydynt yn cael eu cynnal yn Gymraeg; iii) ei bod yn paratoi strategaeth ar gyfer recriwtio arholwyr sy'n gallu darparu profion gyrru ymarferol yn Gymraeg; iv) ei bod yn paratoi strategaeth i sicrhau bod yr arholwyr presennol sy'n siarad Cymraeg yn gallu symud rhwng canolfannau i ateb y galw, ac y dylent flaenoriaethu profion gyrru yn y Gymraeg; v) ei bod yn creu trefn i adrodd ar gyflawniad y

Mae'r Comisiynydd hefyd yn derbyn cwynion ac ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd am sefydliadau nad ydynt yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg. Derbyniwyd nifer o gwynion/ ymholiadau dros y 2 flynedd ddiwethaf am elfennau gwahanol o'r broses yn ymwneud â Covid-19.

Amlygwyd yr angen i ystyried y Gymraeg ar lefel y Deyrnas Unedig – a sicrhau ei statws – yn glir iawn yng nghyd-destun pandemig COVID-19 pan benderfynwyd caffael a threfnu nifer o ymatebion allweddol i'r pandemig yn ganolog gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan. Pendraw'r canoli ymdrechion hyn gan adran annatganoledig ac anghyfarwydd â gweithredu o dan ofynion y safonau oedd nad oedd pob un o'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi'u cynllunio â'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog. Rhaid dysgu gwersi o hyn a sicrhau fod gan y Gymraeg statws cyfansoddiadol a gwleidyddol digonol ar lefel y Deyrnas Unedig i sicrhau darparu gwasanaethau angenrheidiol i ddinasyddion Cymru, yn arbennig mewn cyfnod o argyfwng.

## Atodiad 1

### Tystiolaeth sy'n sail i'r adroddiad

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac amrywiol, gan gynnwys:

- monitro – cynnal arolygon profiad defnyddwyr (gwirio gwasanaethau fel gohebiaeth, ffôn, ffurflenni, dogfennau, hunaniaeth gorfforaethol, gwefannau ac ati);
- gwirio adroddiadau blynyddol, dogfennau atodol a hysbysebion swyddi
- cyswllt â sefydliadau – argraffiadau swyddogion sy'n delio â sefydliadau wrth roi cefnogaeth i gydymffurfio, gosod safonau, a chynnal ymchwiliadau.
- Cyfarfodydd casglu tystiolaeth gyda sefydliadau.

O ran arolygon profiad defnyddwyr, dylid nodi mae'r canlyniadau'n seiliedig ar wirio gwasanaethau pob sefydliad rheoliadau rhif 1 a 7, a sampl o gyrff rheoliadau rhif 2, 4, 5 a 6 yn ogystal â detholiad o sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith. Mae rhestr o'r gyrff oedd yn destun arolygon yn atodiad 2.

Cynhaliwyd yr arolygon gwirio gan swyddogion y Comisiynydd. Gwiriwyd y gwasanaethau dair gwaith yn ystod y flwyddyn yn y rhan fwyaf o achosion a gyda methodoleg glir yn seiliedig ar ofynion y safonau o ran be nodir fel cydymffurfiaeth ai beidio.

Profiad defnyddwyr yw prif nod y gwaith gwirio, fodd bynnag roedd y gwirio yn ystyried gofynion y safonau yn llawn, a chyfeirir at rhain yn yr adroddiad ble yn berthnasol i nodi'r angen am well cynllunio ac ati.

Oherwydd penderfyniadau gwnaed yn sgil y pandemig nid yw arolygon wedi ei allanoli wedi cymryd lle yn y ddwy flynedd diwethaf, golygai hyn nad oes data ar berfformiad gyda gwasanaethau megis arwyddion dangosir gan gyrff, derbynfeydd a pheiriannau hunan wasanaeth wedi ei gynnwys gan nad oedd modd eu gwirio.

### Arolwg Barn Siaradwyr Cymraeg:

Cynhaliwyd 400 o gyfweliadau y flwyddyn hon gyda siaradwyr Cymraeg ym mis Tachwedd 2021, oherwydd y pandemig, cynhaliwyd y cyfweliadau ar lein. Roedd tua hanner yr ymatebwyr yn cofnodi eu bod yn rhugl. Roedd y sampl yn gynrychioliadol o siaradwyr Cymraeg 16 a throsodd yng Nghymru (trwy edrych ar gyfran sy'n medru siarad Cymraeg o fewn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru).

Oherwydd y pandemig ac yn sgil colli data yn dilyn ymosodiad seibr ar systemau'r Comisiynydd nid oedd modd i'r Comisiynydd ymgysylltu â'r cyhoedd mewn dulliau eraill yn ystod y flwyddyn hon.

## Atodiad 2:

### Rhestr o sefydliadau arolygwyd ar gyfer canfyddiadau arolygon gwirio

Rheoliadau Rhif 1	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Cyngor Bro Morgannwg Cyngor Caerdydd Cyngor Casnewydd Cyngor Gwynedd Cyngor Sir Ceredigion Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Fynwy Cyngor Sir Gâr Cyngor Sir Penfro Cyngor Sir Powys Cyngor Sir Y Fflint Cyngor Sir Ynys Môn Gweinidogion Cymru
Rheoliadau Rhif 2	Colegau Cymru Cyf Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Comisiynydd Plant Cymru Comisiynydd Pobl Hyn Cymru Gronfa Gymunedol Y Loteri Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Estyn Opera Genedlaethol Cymru Sefydliad Dysgu A Gwaith Uned Data Llywodraeth Leol Cymru Y Comisiwn Etholiadol BBC Y Swyddfa Gyfathrebiadau (OFCOM)



Rheoliadau Rhif 4	<p>Cyngor Y Gweithlu Addysg  Gofal Cymdeithasol Cymru  Tribiwnlys Anghenion Addysgol  Arbennig Cymru  Tribiwnlys Anghenion Addysgol  Arbennig Cymru  Tribiwnlys Eiddo Prisio Cymru</p>
Rheoliadau Rhif 5	<p>Comisiynydd Heddlu a Throseddi Dyfed  Powys  Comisiynydd Heddlu a Throseddi Gwent  Gwasanaeth Tan Ac Achub De Cymru  Heddlu Gogledd Cymru  Heddlu Gwent  Heddlu Trafnidiaeth Prydain  Swyddfa Annibynnol Ymddygiad Yr  Heddlu</p>
Rheoliadau Rhif 6	<p>Coleg Caerdydd A'r Fro  Coleg Gŵyr Abertawe  Coleg Pen-y-bont  Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  Prifysgol Abertawe  Prifysgol Bangor  Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant  Prifysgol De Cymru  Y Brifysgol Agored  Coleg Y Cymoedd  Grŵp NPTC  Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig</p>
Rheoliadau Rhif 7	<p>Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys  Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r  Fro  Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf  Morgannwg  Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  Ymddiriedolaeth GIG Felindre  Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau  Ambiwlans Cymru  Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus  Cymru</p>
Cyrff sy'n gweithredu cynlluniau iaith	<p>Adran Gwaith a Phensiynau  Asiantaeth Safonau Gyr a Cherbydau  Asiantaeth Taliadau Gwledig  Asiantaeth trwyddedu Gyrwyr a  Cherbydau  Awdurdod Gweithredol Iechyd a  Diogelwch  Awdurdod Ymddygiad Ariannol</p>

	Gronfa Goffa'r Treftadaeth Genedlaethol Cyllid a Thollau EM Dŵr Cymru Dŵr Hafren Dyfrdwy Grŵp y Post Brenhinol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM Hybu Cig Cymru Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau
--	---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

0345 6033 221

[post@comisiynyddygybraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygybraeg.cymru)

[@ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)

[comisiynyddygybraeg.cymru](http://comisiynyddygybraeg.cymru)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag